



Home Office

DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019

Canllawiau statudol – a gyhoeddwyd o dan adran 66 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019

Ebrill 2022

Cynnwys

CYFLWYNIAD	4
1. CYNHYRCHION A SYLWEDDAU CYRYDOL - DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 1.....	7
Gwerthu a danfon cynhyrchion cyrydol	7
Amddiffyniad i werthu cynhyrchion cyrydol o bell i bobl o dan 18 oed	11
Danfon cynhyrchion cyrydol i eiddo preswyl	13
Danfon cynhyrchion cyrydol i bobl o dan 18 oed lle mae'r gwerthwr y tu allan i'r DU	14
Rhagdybiaethau mewn achosion yn yr Alban am droseddau mewn perthynas â gwerthu a darparu cynhyrchion cyrydol	15
Meddu ar sylweddau cyrydol	15
Chwilio am sylweddau cyrydol: Cymru a Lloegr	18
Diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â dedfrydu	18
2. GWERTHU A DANFON CYLLYLL AC ATI – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 3	20
Gwerthu gwrthrychau llafnog i bobl o dan 18 oed.....	20
Amddiffyniad i werthu gwrthrychau llafnog i bobl o dan 18 oed: Cymru a Lloegr	21
Darparu cynhyrchion llafnog i eiddo preswyl	23
Danfon cynhyrchion llafnog i bobl o dan 18 oed - gwerthwr wedi'i leoli yn y DU.....	25
Amddiffyniadau i droseddau o ddarparu cynhyrchion llafnog	25
Danfon gwrthrychau llafnog i bobl o dan 18 oed - mae'r gwerthwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU	26
3. MEDDU AR ARFAU YMOSODOL PENODOL ETC – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 4	28
Diwygiadau i'r diffiniad o "gyllell glec"	28
Gwahardd meddiannu rhai cyllyll peryglus.....	29
Gwahardd meddu ar arfau ymosodol ar safle addysg bellach	29
Gwaharddia ar fedduy ar arfau ymosodol.....	30
Gwaharddiad ar fedduy ar arfau ymosodol: cyllyll seiclun neu droellog.....	31
Kirpanau	31
Ildio arfau ymosodol gwaharddedig a thaliadau mewn perthynas â hwy	31
4. BYGWTH AG ARFAU YMOSODOL – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 5	32
Trosedd bygwth gydag arf ymosodol mewn man cyhoeddus.....	32
Bygwth ag arf ymosodol ar safle addysg bellach neu mewn man preifat	32
Chwilio am sylwedd cyrydol ar safle ysgol neu addysg bellach	33
5. GORFODI – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 7.....	34
Gorfodi troseddau sy'n ymwneud â gwerthu arfau ymosodol	34
Deddf Cymhwysio Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008	34
Atodiad A – rhestr o arfau ymosodol.....	37
Arfau Penodedig	37

CYFLWYNIAD

Mae'r canllawiau statudol hyn yn rhoi cyngor i'r rhai y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r mesurau yn Neddf Arfau Ymosodol 2019 a nodir isod, neu eu gorfodi, a chyda deddfwriaeth arall a ddiwygir gan y Ddeddf, yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn rhoi cyngor mewn perthynas ag adrannau 1 i 4 o'r Ddeddf yn yr Alban mewn perthynas â gwerthu a darparu cynhyrchion cyrydol. Nid yw'r canllawiau statudol hyn yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Cwmpas y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r Rhannau canlynol o'r Ddeddf:

- Rhan 1: Cynhyrchion a sylweddau cyrydol
- Rhan 3: Gwerthu a darparu cyllyll ac ati.
- Rhan 4: Meddiant ac ati o arfau ymosodol penodol
- Rhan 5: Bygwth gydag arfau ymosodol
- Rhan 7: Gorfodi

Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ymwneud â Gorchmynion Atal Troseddau Cyllyll. Mae'r mesurau hyn yn destun canllawiau ar wahân.

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn ymwneud ag Arfau Tanio. Mae'r mesurau yn Rhan 6 yn cynnwys gwahardd rhai arfau tanio, eu hildio a threfniadau iawndal. Mae'r mesurau hyn yn destun canllawiau ar wahân ac fe'u trafodir ymhellach isod. Mae Rhan 6 hefyd yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â gwell diogelwch ar gyfer rhai arfau tanio, sydd wedi'u cynnwys mewn ymgynghoriad ar wahân ar nifer o faterion diogelwch arfau tanio, a gynhaliwyd rhwng 24 Tachwedd 2020 a 16 Chwefror 2021. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn ar gael ar gov.uk.

Diben y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau'n bennaf ar gyfer yr heddlu, manwerthwyr, cwmnïau danfon ac Awdurdodau Safonau Masnach. Bydd hefyd o ddiddordeb i Wasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr gwrthrychau llafnog, cynhyrchion llafnog, ac eitemau cyrydol, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r canllawiau'n nodi sut y dylid cydymffurfio â dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Arfau Ymosodol 2019, a pha ffactorau y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ag achosion unigol sy'n ymwneud â meddiannu, gwerthu a darparu cyllyll, eitemau cyrydol ac arfau ymosodol, a defnyddio'r rhain i fygwth eraill.

Gall sefydliadau a chyrrff gyhoeddi canllawiau ychwanegol mewn perthynas â'r materion hyn i'w hegluro os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Gwaharddiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Arfau Ymosodol 2019

Mae mesurau yn Rhan 4 a Rhan 6 o'r Ddeddf yn gwahardd meddiannu arfau ymosodol a rhai arfau tanio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaharddiadau hyn gael eu rhagflaenu gan drefniadau ar gyfer ildio'r eitemau dan sylw i'r heddlu, ac i iawndal gael ei dalu i'r rhai a oedd yn berchen yn gyfreithlon ar yr arfau ar y dyddiadau a bennir yn Rhannau 4 a 6 o'r Ddeddf ac sy'n ildio'r eitemau yn unol â threfniadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Nodwyd y trefniadau yn y Rheoliadau perthnasol¹ ac roedd cynllun ildio ac iawndal yn rhedeg rhwng 10 Rhagfyr 2020 a 9 Mawrth 2021.

Diben darpariaethau Deddf Arfau Ymosodol 2019 a gwmpesir gan y canllawiau hyn

Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau deddfwriaethol newydd i reoli gwerthu cyllyll a chynhyrchion cyrydol, ac mae'n cyflwyno troseddau newydd sy'n ymwneud â'u meddiant a'u defnydd.

Mae'r Ddeddf yn creu trosedd newydd o werthu cynnyrch cyrydol i berson o dan 18 oed. Nodir y sylweddau a'r lefelau crynodiad sy'n gyfystyr â chynhyrchion cyrydol at y diben hwn yn Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pŵer dirprwyedig i ddiwygio'r Atodlen i ychwanegu, dileu neu addasu sylweddau a lefelau crynodiad yn ôl y gofyn.

Mae'r Ddeddf yn creu trosedd newydd o feddu ar sylwedd cyrydol mewn man cyhoeddus. Darperir amddiffyniad i'r drosedd hon lle gall y person brofi bod ganddo reswm da neu awdurdod cyfreithlon am gael y sylwedd cyrydol gyda hwy.

Mae'r Ddeddf yn darparu amddiffyniadau a all fod yn berthnasol i'r drosedd o werthu gwrthrychau llafnog i rai dan 18 oed, yn achos y gwerthiannau o bell. Mae gwerthiannau o bell yn cynnwys gwerthiannau ar-lein, archeb bost neu werthiannau dros y ffôn. Mae'r amddiffyniad yn gofyn am brawf bod y gwerthwr wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd o werthu i rywun o dan 18 oed. I ddibynnu ar yr amddiffyniad, o leiaf, rhaid i'r **holl** amodau a nodir yn adran 35 o'r Ddeddf gael eu bodloni.

Mae'r Ddeddf yn darparu amddiffyniadau i'r troseddau o ddanfôn, neu drefnu i ddanfôn, cynnyrch llafnog i safle preswyl neu i locer a'r drosedd o ddanfôn cynhyrchion llafnog i rywun dan 18 oed mewn safle preswyl oni bai bod y gwerthwr yn bodloni amodau penodol (roedd ganddo weithdrefnau ar waith a oedd yn debygol o sicrhau y byddai unrhyw gynnyrch llafnog yn cael ei gyflwyno i ddwylo rhywun dros 18 oed ac yn cymryd pob rhagofal rhesymol ac yn arfer pob diwydrwydd dyladwy, i sicrhau bod y cynnyrch yn cael ei gyflwyno i rywun dros 18 oed, neu fod y cynnyrch wedi'i gynllunio, ei weithgynhyrchu, ei addasu ar gyfer y prynwr yn unol â'u manylebau neu os oedd y cynhyrchion at ddibenion chwaraeon neu ail-greu hanesyddol). Mae'r term "cynnyrch llafnog" yn derm newydd a gyflwynir yn y Ddeddf a'i fwriad yw cwmpasu is-set o eitemau â llafn ac mae'n golygu eitem â llafn sy'n gallu achosi anaf difrifol i berson sy'n golygu torri croen y person hwnnw.

Pan fo'r gwerthwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU, mae darparu cynnyrch llafnog i berson o dan 18 oed yn drosedd i'r cwmni dosbarthu sy'n danfon y cynnyrch ar ran y gwerthwr tramor. Mae amddiffyniadau i'r drosedd hon lle mae'r cwmni dosbarthu yn cymryd pob rhagofal rhesymol ac yn arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi danfon y cynnyrch llafnog i ddwylo person o dan 18 oed.

Mae cynllun yr Awdurdod Sylfaenol, sy'n berthnasol i Awdurdodau Safonau Masnach, wedi'i ymestyn i gynnwys gwerthu, danfon ac ati cyllyll (gan gynnwys gwrthrychau llafnog a chynhyrchion llafnog), cynhyrchion cyrydol ac arfau ymosodol eraill.

Mae'r Ddeddf yn diweddarau'r diffiniad o gyllell clec i gynnwys y rhai lle nad yw'r mecanwaith o fewn y ddolen. Mae hefyd yn gwahardd meddiannu cyllyll clec a chyllyll disgyrchiant yn breifat. Mae gwerthu, mewnforio, gweithgynhyrchu, cyflenwi a meddiannu'n gyhoeddus eisoes wedi'i wahardd.

¹ Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (Iawndal) 2020

Mae'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag arfau ymosodol i'w gwneud yn drosedd i feddu ar arfau ymosodol penodol, megis dyrnau haearn, cyllyll sombi a sêr angau. Mae gwerthu, mewnfario, gweithgynhyrchu, cyflenwi a meddiannu'r eitemau hyn eisoes wedi'u gwahardd. Mae'r Ddeddf hefyd yn ymestyn y troseddau presennol o feddu ar wrthrych llafnog neu arf ymosodol ar safle ysgol i gynnwys safleoedd addysg bellach yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Ddeddf yn diwygio'r prawf cyfreithiol ar gyfer bygwth yn gyhoeddus gydag arf ymosodol yng Nghymru a Lloegr. Mae bellach yn ystyried a fyddai person rhesymol, yn sefyllfa'r dioddefwr, yn dehongli bygythiad o'r fath fel un lle'r oedd risg uniongyrchol o niwed corfforol.

1. CYNHYRCHION A SYLWEDDAU CYRYDOL - DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 1

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymateb i'r bygythiad a achosir gan y defnydd o sylweddau cyrydol fel arf i achosi niwed difrifol. Er nad yw'r math hwn o drosedd yn newydd, mae'r defnydd o gyrydon fel arf yn peri pryder sylweddol o ystyried yr anafiadau sy'n newid bywyd y gall y sylweddau hyn eu hachosi. Mae'r mesurau a ddarperir gan y Ddeddf yn cryfhau pwerau'r heddlu, Safonau Masnach a phartneriaid eraill i allu mynd i'r afael â'r troseddau hyn.

Mae'r darpariaethau yn Rhan 1 wedi'u cynllunio i gyfyngu ar fynediad i'r cynhyrchion hynny sy'n cynnwys y sylweddau cyrydol mwyaf niweidiol drwy wahardd gwerthu a darparu cynhyrchion cyrydol i rai dan 18 oed. Mae Rhan 1 hefyd yn cryfhau pwerau'r heddlu, gan ei gwneud yn drosedd meddu ar sylwedd cyrydol mewn man cyhoeddus heb reswm da nac awdurdod cyfreithlon.

Gwerthu a danfon cynhyrchion cyrydol

Bydd y Ddeddf yn cyfyngu ar fynediad i'r sylweddau cyrydol mwyaf niweidiol gan bobl dan 18 oed drwy ei gwneud yn drosedd gwerthu cynnyrch cyrydol, boed dros y cownter neu ar-lein, i rywun o dan 18 oed.

Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn nodi'r rhwymedigaethau statudol a osodir ar fanwerthwyr, gwerthwyr ar-lein a marchnadoedd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn esbonio'r amddiffyniadau sydd ar gael, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob rhagofal rhesymol gael ei gymryd a bod yr holl ddiwydrwydd dyladwy yn cael ei arfer er mwyn osgoi cyflawni trosedd.

Yn yr Alban, mae'n ofynnol i'r gwerthwr fod wedi ymgymryd â nifer o gamau penodol er mwyn gallu defnyddio'r amddiffyniad. Y rhain fyddai bod y gwerthwr yn credu y gallai'r person y gwerthwyd y cynnyrch cyrydol iddo fod yn 18 oed neu'n hŷn, a naill ai roedd y gwerthwr wedi cymryd camau rhesymol i sefydlu oedran y prynwr neu na allai unrhyw berson rhesymol, yn seiliedig ar ymddangosiad y prynwr, fod wedi amau eu bod o dan 18 oed. Pennir camau rhesymol fel y dangoswyd i'r gwerthwr unrhyw un o'r dogfennau a restrir (pasbort, trwydded yrru cerdyn llun yr UE neu ddogfennau o'r fath y gall Gweinidogion yr Alban eu rhagnodi drwy orchymyn) a byddai'r ddogfen wedi argyhoeddi person rhesymol. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae angen ychwanegu trwyddedau gyrru'r DU at y rhestr o ddogfennau rhagnodedig. Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu, yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan Senedd yr Alban maes o law, eu hychwanegu at y rhestr ar ôl i'r Ddeddf gael ei chychwyn. Caiff yr adran hon o'r canllawiau ei diwygio i restru trwyddedau gyrru'r DU unwaith y bydd y newidiadau wedi dod i rym.

Diffiniad

At ddibenion adrannau 1-4 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â gwerthu a dosbarthu, mae'r diffiniad o "gynnyrch cyrydol" fel y'i darperir gan Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae Atodlen 1 yn rhestru'r sylweddau penodol a'r terfyn crynodiad y maent yn dod o fewn y diffiniad o "gynnyrch cyrydol" at ddibenion y Ddeddf hon, a atgynhyrchir yn y tabl isod. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys y sylweddau hyn gyda chrynodiad uwch na'r terfyn crynodiad a nodir yn y tabl.

<i>Enw'r sylwedd a Rhif Gofrestrfa Crynodebau Cemegol (CAS RN)</i>	<i>Terfyn crynodiad (pwysau mewn pwysau)</i>
Amoniwm hydrocsid (CAS RN 1336-21-6)	10% p/p
Asid fformig (CAS RN 64-18-6)	10% p/p

Asid hydroclorig (CAS RN 7647-01-0)	10% p/p
Asid hydrofflorig (CAS RN 7664-39-3)	0% p/p
Asid nitrig (CAS RN 7697-37-2)	3% p/p
Asid ffosfforig (CAS RN 7664-38-2)	70% p/p
Sodiwm hydrocsid (CAS RN 1310-73-2)	12% p/p
Hypoclorit Sodiwm (CAS RN 7681-52-9)	10% p/p
Asid sylffwrig (CAS RN 7664-93-9)	15% p/p

Mae'r dull o ddiffinio cynhyrchion cyrydol yn ôl sylwedd, rhif cofrestrfa crynodebau cemegol a therfyn crynodiad yn Atodlen 1 yn rhoi eglurder ar y cynhyrchion a fydd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau oedran newydd ar werthiannau. Mae'r math hwn o ddull gweithredu yn un a ddylai fod yn gyfarwydd i fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr a, thrwy nodi'r union sylwedd a'r terfyn crynodiad penodol, bydd hyn yn helpu gwerthwyr i nodi'r cynhyrchion hynny y gallant fod yn eu gwerthu a fydd yn cael eu cipio gan y cyfyngiadau oedran hyn.

Mae'r terfynau sylweddau a chrynodiadau yn seiliedig ar gyngor gwyddonol a ddarparwyd gan y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn ac yn flaenorol o hen Ganolfan y Swyddfa Gartref ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gymhwysol. Mae'r sylweddau a ddiffinnir fel cynhyrchion cyrydol yn Atodlen 1 yn cynnwys y rhai y gwyddom eu bod wedi cael eu defnyddio mewn ymosodiadau a hefyd y rhai sydd â'r potensial i gael eu defnyddio fel arf i achosi niwed difrifol ac anafiadau sy'n newid bywyd. Mae'r terfynau crynodiad yn adlewyrchu'r trothwyon lle byddai'r sylweddau hyn yn fwyaf tebygol o achosi anafiadau a allai fod yn barhaol neu'n newid bywyd.

Darparodd y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn bapur yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019, a oedd yn [crynhoi'r cyngor gwyddonol i'r Swyddfa Gartref ar fath a hunaniaeth sylweddau cyrydol a ddefnyddir mewn ymosodiadau](#).

Defnyddir rhai o'r sylweddau a ddiffinnir fel cynhyrchion cyrydol yn gyffredin mewn cynhyrchion fel glanhawyr/dadblocwyr draeniau cryfder uchel, tynwyr paent, glanhawyr brics a phatio, cynhyrchion glanhau, tynwyr rhwd neu galch. Fodd bynnag, ni fydd cynhyrchion fel cannydd cartref a glanhawyr â chryfder arferol yn cael eu dal gan y cyfyngiadau oedran ar werthiannau gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy o lidiwr ac nad ydynt yn cynnwys cemegion cyrydol yn y crynodiadau a nodir yn yr Atodlen. Fodd bynnag, bydd angen i werthwyr wirio eu hystod cynnyrch i sicrhau eu bod yn gwybod pa gynhyrchion sy'n bodloni'r diffiniad o gynnyrch cyrydol ac na ddylid eu gwerthu i berson o dan 18 oed.

Nid ydym wedi rhestru cynhyrchion cyfredol ar y farchnad yn y canllawiau hyn sy'n debygol o gynnwys sylweddau ar derfyn crynodiad a fydd yn dod â hwy o fewn y diffiniad o gynnyrch cyrydol yn Atodlen 1. Byddai angen diweddarau unrhyw restr o'r fath yn gyson ac yn amodol ar newid wrth i gynhyrchion newydd ddod i'r farchnad ac mae perygl bob amser o hepgor cynnyrch. Cyfrifoldeb y gwerthwr yw sicrhau eu bod yn nodi unrhyw gynhyrchion y maent yn eu stocio sy'n bodloni'r diffiniad o gynnyrch cyrydol y mae'r cyfyngiad oedran yn berthnasol iddo. Gall hyn olygu y bydd angen i werthwyr ymgynghori â chyflenwyr (gan gynnwys gweithgynhyrchwyr, mewforwyr a dosbarthwyr) er mwyn nodi'r cynhyrchion hyn.

Esemptiad

Mae'r Ddeddf yn eithrio **unrhyw fath o fatri o'r darpariaethau gwerthu a danfon** o ystyried y defnydd eang o fatris mewn eitemau bob dydd a faint o fatris sy'n cael eu defnyddio bob dydd. Rhaid cynnwys y sylwedd neu'r cynnyrch o fewn batri. Nid yw hyn yn eithrio asid batri ei hun o'r darpariaethau gwerthu a danfon na photeli llenwi asid.

Adnabod cynhyrchion sy'n cael eu dal gan y cyfyngiadau oedran

Bydd angen i werthwyr nodi unrhyw gynhyrchion y maent yn eu gwerthu sy'n cynnwys y sylweddau hyn ar y lefelau crynodiad a fyddai'n dod â hwy o fewn diffiniad y Ddeddf o gynnyrch crydol. Lle bo angen, dylent weithio gyda'u cyflenwyr i wneud hynny.

Bydd Rheoliad REACH (fel y'i cedwir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac a ddiwygiwyd gan Reoliadau REACH ac ati (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019)² o gymorth i helpu gwerthwyr i adnabod cynhyrchion. Mae'n gosod dyletswydd benodol ar gyflenwyr (boed yn weithgynhyrchwyr, mewnforywyr, dosbarthwyr, neu ddefnyddwyr) o sylweddau neu gymysgeddau cemegol penodol i ddarparu taflen ddata diogelwch (SDS). Ymhlith yr SDSs mae gwybodaeth am briodweddau'r sylwedd neu'r gymysgedd, ei beryglon a'i gyfarwyddiadau ar gyfer trin, gwaredu a chludo, yn ogystal â chymorth cyntaf, ymladd tân a mesurau rheoli ar gyfer dod i gysylltiad. Mae SDSs yn galluogi i'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo drwy'r gadwyn gyflenwi gan gynnwys i fanwerthwyr i helpu i sicrhau bod sylweddau'n cael eu rheoli'n ddiogel.

Rhaid darparu SDS i'r derbynnydd yn rhad ac am ddim, ar bapur neu'n electronig, e.e. dosbarthu drwy'r post, ffacs neu e-bost, heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y cyflenwir y sylwedd neu'r gymysgedd gyntaf. Mae dyletswydd gadarnhaol ar y cyflenwr i ddarparu'r SDS (a phob diweddariad gofynnol) yn hytrach na dim ond ei ddarparu'n oddefol, er enghraifft ar y rhyngwyd neu'n adweithiol drwy ei gyflwyno ar gais. Pan fo'r derbynnydd yn ail-archebu sylweddau neu gymysgeddau, nid oes angen i'r cyflenwr ail-gyflenwi'r SDS, oni bai bod y cynnwys wedi newid, neu fod y daflen wedi'i diweddaru.

Os prynir unrhyw gynhyrchion crydol drwy gyfanwerthwyr, byddent yn cael eu hystyried yn ddosbarthwr a dylid darparu SDSs i'r gwerthwr. Lle nad yw hyn yn digwydd, dylid codi hyn gyda'r cyfanwerthwr dan sylw, er mwyn canfod a yw'r cynhyrchion dan sylw yn cael eu dal gan y cyfyngiadau oedran.

Ar wahân i Reoliadau REACH, yn ogystal â nodi unrhyw gynhyrchion crydol y maent yn eu gwerthu, mae angen i werthwyr gymryd camau i sicrhau bod eu staff yn ymwybodol bod y cynhyrchion hyn yn destun cyfyngiadau oedran drwy gamau fel codi ymwybyddiaeth, fflagio'r cynhyrchion hynny a ddelir gan y cyfyngiadau oedran i staff, ac ymgorffori cynhyrchion crydol mewn unrhyw raglenni hyfforddi mewnol a ddarperir i staff ar werthu cynhyrchion sy'n gyfyngedig o ran oedran.

Cyn cyflwyno Deddf Arfau Ymosodol 2019, gweithiodd y Llywodraeth gyda manwerthwyr i sefydlu cyfres o [ymrwmiadau gwirfoddol ar werthu cynhyrchion crydol mewn modd cyfrifol](#) i helpu i annog gwerthiannau cyfrifol o'r cynhyrchion hynny sy'n cynnwys lefelau niweidiol o gynyddion. Datblygwyd yr ymrwymadau hyn gyda Chonsortium Manwerthu Prydain a'u profi gyda Chymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain a'r Gymdeithas Siopau Cyfleustra i sicrhau eu bod yn gymesur a'u bod yn gweithio yn yr amgylchedd manwerthu.

Mae nifer o fanwerthwyr wedi ymrwymo i'r ymrwymadau gwirfoddol hyn, ac mae Adran 1 o'r Ddeddf bellach yn gosod elfennau allweddol o'r rhain ar sail statudol.

⁽²⁾ RHEOLIAD (CE) Rhif 1907/2006 SENEDD EWROP A'R CYNGOR ar 18 Rhagfyr 2006 ynghylch Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion (REACH), sefydlu Asiantaeth Cemegion Ewropeaidd, diwygio Cyfarwyddeb 1999/45/EC a diddymu Rheoliad y Cyngor (CEE) Rhif 793/93 a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1488/94 yn ogystal â Chyfarwyddeb y Cyngor 76/769/CEE a Chyfarwyddebau'r Comisiwn 91/155/EEC, 93/67/CEEC, 93/105/EC a 2000/21/CE (Testun â pherthnasedd yr AEE) (2006 Rheoliad yr UE a ddargedwyd 2006/1907)

Yn achos busnes i fusnes o gyflenwi a phrynu cynhyrchion cyrydol, ni fyddai'r darpariaethau gwerthu a chyflenwi yn gymwys gan fod y gwerthiant yn cael ei wneud i fusnes ac nid i berson o dan 18 oed. Yr unig eithriad yw pan fo busnes yn cael ei redeg gan unig fasnachwr sydd o dan 18 oed. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen i'r unig fasnachwr wneud trefniadau i'r cynhyrchion cyrydol gael eu prynu gan berson sydd dros 18 oed, a'i gyflenwi iddo.

Amddiffyniadau

Lloegr a Chymru – Mae'n amddiffyniad i werthwr sy'n gyfrifol am werthu cynnyrch cyrydol i rywun dan 18 oed ddangos eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd. Mae hyn yn debyg i'r amddiffyniad sydd ar gael mewn perthynas â gwerthu cyllyll ac ati i rai dan 18 oed a ddarperir gan adran 141A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

Bydd angen i'r gwerthwr benderfynu pa ragofalon fyddai'n rhesymol a sut i fodloni'r gofyniad i arfer pob diwydrwydd dyladwy. Gallai hyn, er enghraifft, fod drwy wirio oedran prynwyr drwy ei gwneud yn ofynnol i'r person gynhyrchu dogfennau cydnabyddedig fel pasbort neu drwydded yrru i brofi oedran neu, os yw'n werthiant ar-lein, drwy ddefnyddio system i wirio oedran y prynwr.

Bydd angen i werthwyr a phwyntiau casglu ystyried a ddylid cymhwyso polisiau 'Meddwl 21' neu 'Meddwl 25' fel y bo'n briodol wrth wirio oedran. Fel rhan o hyn, bydd angen iddynt hefyd ystyried y ffordd orau o gefnogi eu staff drwy eu prosesau mewnol presennol, megis rhybuddion ar y til, goruchwyliaeth, codi ymwybyddiaeth am gynhyrchion cyrydol sy'n destun cyfyngiadau oedran, a chynnwys unrhyw gynhyrchion cyrydol y maent yn eu gwerthu neu eu trin fel pwynt casglu mewn hyfforddiant ar werthu â chyfyngiadau oedran. Mae'r Llywodraeth yn rhagweld y byddai defnyddio dull synnwyr cyffredin yn golygu, drwy ymgymryd â mesurau fel y rhai a nodir uchod, y bydd y gwerthwr wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i atal cynhyrchion cyrydol rhag cael eu gwerthu i rywun o dan oed.

Yr Alban – Mae'n amddiffyniad i werthwr a gyhuddir o'r drosedd hon ddangos eu bod yn cyhuddedig wedi cymryd camau rhesymol i sefydlu oedran y prynwr neu na allai unrhyw berson rhesymol, yn seiliedig ar ymddangosiad y prynwr, fod wedi amau eu bod o dan 18 oed. Mae hyn yn debyg i'r ffordd y mae'r amddiffyniad ar gyfer gwerthu gwrthrychau llafnog i rai dan 18 oed yn gweithredu. Mae camau rhesymol yn cael eu rhagnodi fel bod y sawl a gyhuddir wedi cael dangos unrhyw un o'r dogfennau a restrir yn is-adran (5) (pasbort, trwydded yrru cerdyn llun yr UE neu ddogfennau o'r fath y caiff Gweinidogion yr Alban eu rhagnodi drwy orchymyn) ac y byddai'r ddogfen wedi argyhoeddi unrhyw berson rhesymol. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth yr Alban gyda chymeradwyaeth Senedd yr Alban wedi ychwanegu trwyddedau cerdyn-llun y Deyrnas Unedig at y rhestr o ddogfennau rhagnodedig. Gwnaethpwyd y diwygiad hwn gan Orchymyn Deddf Arfau Ymosodol 2019 (Dogfennau Rhagnodedig) (Yr Alban) 2022 a ddaeth i rym ar 28 Mehefin 2022.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi pa systemau dilysu oedran y dylai'r gwerthwr neu'r cwmni dosbarthu eu defnyddio i fodloni'r amddiffyniadau sydd ar gael iddynt yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Bwriad y canllawiau hyn yw cadw hyblygrwydd i'r gwerthwr neu'r cwmni dosbarthu wrth benderfynu pa rai o'r ystod eang o gynhyrchion neu systemau dilysu oedran sydd ar gael sydd fwyaf addas i'w gofynion busnes er mwyn bodloni gofynion yr amddiffyniad.

Diwygio Atodlen 1

Mae adran 1(12) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (h.y. yr Ysgrifennydd Gwladol) allu diwygio, ychwanegu neu ddileu sylweddau a therfynau crynodiad yn Atodlen 1 drwy is-ddeddfwriaeth ar ôl ymgynghori â phersonau y mae'r rheoliadau'n debygol o effeithio arnynt ac y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei fod yn briodol ymgynghori â hwy.

Bydd y Swyddfa Gartref yn adolygu'r sylweddau a'r terfynau crynodiad drwy weithio'n agos gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a darparwyr ffrensig ar y sylweddau a'r crynodiadau y mae heddluoedd yn adrodd eu bod yn eu canfod naill ai mewn perthynas ag ymosodiadau neu unigolion sy'n meddu ar sylweddau cyrydol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda chymdeithasau masnach manwerthu, gweithgynhyrchwyr a'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn fel rhan o'r broses hon.

Amddiffyniad i werthu cynhyrchion cyrydol o bell i bobl o dan 18 oed

Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn diffinio gwerthiant o bell fel lle nad oedd y gwerthwr neu gynrychiolydd y gwerthwr ym mhresenoldeb y prynwr, ac felly mae'n cynnwys gwerthiannau a wneir ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post.

Pan werthir cynnyrch cyrydol o bell, mae angen i'r gwerthwr fodloni amodau penodol os ydynt am ddibynnu ar yr amddiffyniad o dan adran 1 o'r Ddeddf eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi gwerthu i berson o dan 18 oed.

Yng **Nghymru a Lloegr** rhaid bodloni'r holl amodau canlynol, o leiaf:

- mae gan y gwerthwr system ar waith i gadarnhau nad yw'r prynwr o dan 18 oed a bod y system yn debygol o atal person o dan 18 oed rhag prynu cynnyrch cyrydol;
- mae'r pecyn pan gaiff ei anfon gan y gwerthwr wedi'i farcio'n glir ei fod yn cynnwys cynnyrch cyrydol ac mai dim ond i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn y gellir ei drosglwyddo (boed y prynwr neu rywun sy'n eu cynrychioli);
- mae'r gwerthwr wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i sicrhau, pan fydd y pecyn yn cael ei ddanfoni, ei fod yn cael ei drosglwyddo i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r gwerthwr yn darparu'r pecyn ei hun neu drwy drydydd parti h.y. gan staff ar bwynt casglu; a
- nid yw'r gwerthwr yn danfoni y pecyn, nac yn trefnu iddo gael ei ddanfoni, i locer.

Yn **Yr Alban** bydd yn amddiffyniad i'r gwerthwr ddangos bod yr holl amodau a nodir uchod wedi'u bodloni, a bydd gwerthwr wedi dangos eu bod wedi bodloni amod drwy gynhyrchu digon o dystiolaeth ac nad yw'r gwrthwyneb wedi'i brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol.

Systemau dilysu oedran

Nid yw Deddf Arfau Ymosodol 2019 yn rhagnodi system gwirio oedran benodol y mae'n rhaid i werthwr o bell ei chael ar waith. Mater i werthwyr yw penderfynu a yw'r system yn bodloni'r gofyniad ei bod '*yn debygol o atal pobl o dan 18 oed rhag prynu cynnyrch cyrydol drwy'r dull hwnnw*'.

- *Dilysu oedran mewn siopau:*
Gallai gwerthwyr benderfynu mabwysiadu eu polisïau 'Meddwl 21' neu 'Meddwl 25' presennol i sicrhau bod yn rhaid i unrhyw un sy'n ymddangos yn iau na 21 neu 25 oed ddarparu adnabyddiaeth dderbyniol cyn prynu cynnyrch cyrydol; h.y. pasbort, trwydded

yrru neu fath dilys arall o adnabod. Bydd y dull hwn hefyd yn golygu bod asesiad gweledol yn ddigonol ar gyfer unrhyw un sy'n amlwg dros 21 neu 25 oed.

- *Dilysu oedran o bell:*

Mae amrywiaeth o brosesau neu systemau dilysu oedran ar gael, ac roedd y Llywodraeth yn glir wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio nad oedd am gyhoeddi safonau ar gyfer systemau ar gyfer dilysu electronig o oedran gan fod penderfyniadau ar ba systemau i'w caffael a'u defnyddio yn fater i'r gwerthwr ac iddynt benderfynu a ydynt yn bodloni gofynion y Ddeddf. Mater i'r gwerthwr yw penderfynu pa system sy'n gweithio orau ar gyfer eu model busnes ac a fydd yn caniatáu iddynt ddangos eu bod yn cymryd pob rhagofal rhesymol ac yn arfer pob diwydrwydd dyladwy.

Pan fydd manwerthwr yn cael ei erlyn am drosedd o dan Adran 1, bydd y llysoedd yn ystyried a oes gan y manwerthwr system ddilysu oedran ddigonol ar waith wrth ystyried yr amddiffyniad o dan Adran 2. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'r enghreifftiau canlynol a ddefnyddir gan werthwyr o bell yn **annigonol** i arddangos bod gan y gwerthwr system ddigonol a bod proses ddilysu oedran gadarn wedi digwydd:

- dibynnu ar y person sy'n prynu'r eitem yn ticio blwch i gadarnhau eu bod dros 18 oed;
- dibynnu mewn unrhyw ffordd arall ar wybodaeth a ddarperir gan y prynwr eu bod dros 18 oed heb gynnal gwiriadau ychwanegol;
- defnyddio systemau talu a allai ei gwneud yn ofynnol i'r cwsmer fod dros 18 oed ond nad ydynt yn dilysu oedran wrth brynu.

Dilysu oedran ar bwyntiau casglu:

Ar gyfer pwyntiau casglu, mae angen i werthwyr sicrhau bod unrhyw becyn wedi'i farcio'n glir ar y pwynt casglu ei fod yn cynnwys cynnyrch cyrydol ac na ddylid ei drosglwyddo i unrhyw un o dan 18 oed. Mae angen i werthwyr hefyd gymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer pob diwydrwydd dyladwy i sicrhau, pan gaiff ei gyflenwi i'r prynwr o bwynt casglu, y byddai'r pecyn yn cael ei ddsbarthu i ddwylo person dros 18 oed. Mae hyn yn cynnwys rhagofalon a diwydrwydd dyladwy i sicrhau na fyddai pwyntiau casglu yn trosglwyddo unrhyw becynnau sy'n cynnwys cynhyrchion cyrydol i rai dan 18 oed pe baent am ddibynnu ar yr amddiffyniad pe baent yn cael eu cyhuddo o drosedd. Ym marn y Llywodraeth, gallai hyn gynnwys sicrhau y byddai pwyntiau casglu yn mabwysiadu ac yn gweithredu polisïau 'Meddwl 21' neu 'Meddwl 25', os nad yw'r rhain eisoes ar waith, er mwyn sicrhau bod yn rhaid i unrhyw un sy'n edrych o dan 21 neu 25 oed ddarparu modd adnabod i ddangos eu bod dros 18 oed cyn casglu cynnyrch cyrydol, p'un a ydynt yn brynwr gwirioneddol neu'n casglu ar ran y prynwr (er y bydd yn rhaid i werthwyr fodloni eu hunain beth bynnag bod y holl ragofalon rhesymol wedi'u cymryd).

Labelu pecynnau

Rhaid marcio pob pecyn sy'n cynnwys cynnyrch cyrydol yn glir i ddangos ei fod yn cynnwys cynnyrch cyrydol ac mai dim ond i ddwylo person 18 oed neu'n hŷn y dylid ei drosglwyddo. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi'r math o labelu nac unrhyw un o nodweddion y ddeddfwriaeth, ac mae hyn yn caniatáu i werthwyr benderfynu sut i gydymffurfio â'r gofyniad labelu. Bydd angen i werthwr benderfynu a ellir bodloni'r gofyniad gan sticer sy'n datgan bod yr eitem yn gynnyrch cyrydol ac na ddylid ei throsglwyddo i rywun o dan 18 oed.

Gallai gwerthwyr ystyried defnyddio symbolau fel rhan o'r broses labelu pecyn. Fodd bynnag, ni fydd gwerthwyr yn gallu defnyddio pictogram perygl cyrydol CLP GB (Dosbarthu, Labelu a Phecynnu sylweddau a chymysgeddau) ac eithrio lle mae'r sylwedd neu'r gymysgedd wedi'i ddsbarthu'n gyrydol gan ddefnyddio meini prawf CLP ac fel rhan o label

perygl CLP cyflawn. Y rheswm am hyn yw bod Rheoliad CLP GB (fersiwn a gedwir ac a ddiwygiwyd o Reoliad (EC) Rhif 1272/2008) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i gyflenwyr ddsbarthu pob eiddo peryglus cynhenid (dosbarthiad) o'r sylweddau a'r cymysgeddau y maent yn eu rhoi ar y farchnad, ac i gyfleu'r wybodaeth beryglus honno drwy'r gadwyn gyflenwi cemegion. Mae'r mesurau yn Neddf Arfau Ymosodol 2019 ond yn ymwneud ag atal gwerthu a darparu cynhyrchion cyrydol i rai dan 18 oed.

Mae Rheoliad CLP GB yn caniatáu i wybodaeth labelu ychwanegol gael ei chynnwys ar ddeunydd pacio ar yr amod nad yw gwybodaeth o'r fath yn ei gwneud yn anos nodi'r elfennau perygl a ddarparwyd eisoes ac nad yw'n gwrth-ddweud nac yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd yr elfennau hynny. Pan fo pictogram cyrydol CLP GB yn ymddangos, rhaid iddo eistedd ochr yn ochr â'r geiriad perygl a rhagofalus CLP GB perthnasol sydd wedi'i orfodi'n gyfreithiol. Felly, efallai y bydd yn bosibl i werthwyr ddefnyddio symbol perygl cyrydol ar wahân, wedi'i gynllunio'n wahanol, i sicrhau nad yw'n ymddangos fel delwedd ddu ar gefndir gwyn y tu mewn i'r deimwnt gyda ffiniau coch nodedig yn cael eu defnyddio ar gyfer pictogramau perygl CLP GB a ddynodir yn gyfreithiol. Gellid defnyddio symbol perygl cyrydol wedi'i gynllunio'n wahanol, er enghraifft, ar wahân ynghyd â geiriad mai dim ond i rywun 18 oed neu'n hŷn y dylid danfon y cynnyrch hwn.

Mae gan Reoliad CLP GB ofynion hefyd ynglŷn â'r deunydd pecynnu a ddefnyddir i gyflenwi sylweddau a chymysgeddau peryglus, gan gynnwys y rhai a ddsberthir yn rhai cyrydol. Rhaid i'r deunydd pecynnu fod yn gryf ac yn gadarn a chael ei ddylunio a'i adeiladu i gynnwys y cemegyn yn ddiogel drwy gydol ei broses gyflenwi. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ddeunydd pecynnu o'r fath hefyd gynnwys ffasninau sy'n gwrthsefyll plant a dyfeisiau rhybuddio cyffyrddol.

Mae rhagor o wybodaeth am Reoliad CLP GB a'i ofynion labelu ar gael ar y [wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(HSE\)](https://www.hse.gov.uk/chemical-classification/index.htm) (<https://www.hse.gov.uk/chemical-classification/index.htm>).

Y canolwr olaf mewn unrhyw achos penodol fydd y llysoedd. Fodd bynnag, ym marn y Llywodraeth, mae'n annhebygol y byddai labeli electronig a ddefnyddir ar ddyfeisiau llofnodi â llaw a ddefnyddir yn aml gan gwmnïau cyflenwi a chlodwyr yn bodloni'r gofyniad i labelu'r cynnyrch. Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i'r pecyn ei hun gael ei labelu'n glir. Bydd labelu clir a gweladwy yn bwysig i staff manwerthu a chyflenwi a chlodwyr fel eu bod yn gwbl ymwybodol bod y pecyn yn cynnwys cynnyrch cyrydol ac na ddylid ei drosglwyddo i rywun o dan 18 oed.

Diffiniad o locer

Diffinnir locer fel cynhwysydd y gellir ei gloi y danfonwyd y pecyn iddo gyda'r bwriad o'i gasglu gan y prynwr neu rywun sy'n eu cynrychioli fel y rhai sydd wedi'u lleoli mewn gorsafoedd petrol neu siopau manwerthu sy'n golygu anfon cod at y prynwr er mwyn agor y locer. Nid yw'r rhain yn galluogi dilysu oedran yn y man casglu yn hawdd.

Danfon cynhyrchion cyrydol i eiddo preswyl

Pan werthir cynnyrch cyrydol o bell, mae adran 3 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i'r gwerthwr drefnu i ddanfon neu drefnu i'w ddanfon i eiddo preswyl. Mae hefyd yn drosedd i'r gwerthwr ddanfon neu drefnu i'w ddanfon i locer i'w gasglu. Diben yr adran hon yw sicrhau na ellir danfon cynnyrch cyrydol sy'n cael ei werthu o bell i ddwylo person sydd o dan 18 oed neu ei adael naill ai yn y cyfeiriad neu bwynt casglu oherwydd na ellir dilysu oedran wedyn yn y man danfon.

Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn sicrhau, ar gyfer gwerthiannau o bell, y bydd y prynwr neu ei gynrychiolydd yn destun gwiriadau dilysu oedran pan fyddant yn casglu'r cynnyrch mewn siop neu o bwynt casglu.

Eiddo preswyl

Diffinnir "safleoedd preswyl" at ddibenion y Ddeddf fel safle a ddefnyddir at ddibenion preswyl yn unig. Defnyddiwyd y diffiniad hwn i sicrhau y gellir danfon cynhyrchion cyrydol i fusnesau sy'n cael eu rhedeg o eiddo preswyl.

Amddiffyniadau

Cymru a Lloegr – Mae'n amddiffyniad i werthwr sy'n gyfrifol am y drosedd hon brofi eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd. Bydd angen i'r gwerthwr benderfynu pa wiriadau sydd angen eu gwneud i sicrhau nad yw'r danfoniad yn cael ei wneud i eiddo preswyl a bod busnes yn cael ei gynnal yn y cyfeiriad. Gall enghreifftiau o'r mathau hyn o wiriadau gynnwys chwilio am yr unig fasnachwr, y cwmni neu'r bartneriaeth ar y rhyngwrdd a gwirio'r cyfeiriad neu ofyn i'r prynwr ddarparu tystiolaeth ei fod yn rhedeg busnes o'r cyfeiriad.

Yr Alban – Mae'n amddiffyniad i werthwr sy'n gyfrifol am y drosedd hon ddangos eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd. Byddai angen i'r cyhuddedig gynhyrchu digon o dystiolaeth mewn perthynas â'r amddiffyniad ac i'r gwrthwyneb beidio â chael ei brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol.

Danfon cynhyrchion cyrydol i bobl o dan 18 oed lle mae'r gwerthwr y tu allan i'r DU

Mae adran 4 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i gwmni dosbarthu sydd wedi ymrwymo mewn trefniant gyda gwerthwr cynhyrchion cyrydol sydd y tu allan i'r DU, ddanfon y cynhyrchion i berson o dan 18 oed yn y DU. Mae hyn yn berthnasol pan fo cynhyrchion cyrydol wedi'u gwerthu o bell, boed dros y ffôn, ar-lein neu drwy'r post. Y diben yw lleihau'r risg y bydd pobl dan 18 oed yn ceisio prynu cynnyrch cyrydol gan werthwyr tramor mewn ymgais i osgoi'r gyfraith sy'n berthnasol i werthwyr yn y DU.

Er mwyn i drosedd gael ei chyflawni, byddai angen i gwmni dosbarthu yn y DU fod wedi ymrwymo i drefniant gyda gwerthwr tramor i ddanfon cynhyrchion cyrydol yn y DU, a byddai angen i'r cwmni dosbarthu fod wedi danfon y cynnyrch cyrydol i ddwylo person o dan 18 oed neu ei adael yn y cyfeiriad heb ddilysu oedran.

Amddiffyniadau

Cymru a Lloegr – Mae'n amddiffyniad i gwmni dosbarthu sy'n gyfrifol am y drosedd hon brofi eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd. Byddai hyn yn golygu sicrhau bod dilysu oedran wedi digwydd yn y man cyflwyno er mwyn sicrhau na throsglwyddwyd y cynnyrch cyrydol i berson o dan 18 oed.

Yr Alban – Mae'n amddiffyniad i gwmni dosbarthu sy'n gyfrifol am y drosedd hon ddangos eu bod yn credu bod y person y danfonwyd y cynnyrch iddo yn 18 oed neu'n hŷn a naill ai bod y cyhuddedig wedi cymryd camau rhesymol i sefydlu oedran y prynwr neu na fyddai unrhyw berson rhesymol, yn seiliedig ar ymddangosiad y prynwr, wedi amau eu bod o dan 18 oed. Pennir camau rhesymol fel y dangoswyd i'r cyhuddedig unrhyw un o'r dogfennau a restrir yn is-adran (8) (pasbort, trwydded yrru cerdyn llun yr UE neu ddogfennau o'r fath y

caiff Gweinidogion yr Alban eu rhagnodi drwy orchymyn) a byddai'r ddogfen wedi argyhoeddi unrhyw berson rhesymol. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae angen ychwanegu trwyddedau gyrru'r DU at y rhestr o ddogfennau rhagnodedig. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth yr Alban gyda chymeradwyaeth Senedd yr Alban wedi ychwanegu trwyddedau cerdyn-llun y Deyrnas Unedig at y rhestr o ddogfennau rhagnodedig. Gwnaethpwyd y diwygiad hwn gan Orchymyn Deddf Arfau Ymosodol 2019 (Dogfennau Rhagnodedig) (Yr Alban) 2022 a ddaeth i rym ar 28 Mehefin 2022.

Gorfodi mesurau ar werthu a danfon cynhyrchion cyrydol

Mae'r heddlu a Safonau Masnach yn gallu gorfodi adrannau 1 i 4 o'r Ddeddf.

Er nad yw'n ofyniad penodol o fewn y Ddeddf, mewn perthynas â gwerthiannau dros y cownter, mae'n debygol y bydd angen nodi pa siopau sy'n gwerthu cynhyrchion cyrydol (o fewn telerau'r Ddeddf hon) yn yr ardal leol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf drwy fesurau fel codi ymwybyddiaeth a gweithrediadau profi pryniadau. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr cynhyrchion cyrydol gofrestru yn eu hardal leol, ond nid yw hyn yn atal yr heddlu na Safonau Masnach rhag penderfynu sefydlu cofrestr leol. Ar gyfer gwerthwyr ar-lein, bydd angen nodi hefyd pa werthwyr a marchnadoedd ar-lein sy'n gwerthu cynhyrchion cyrydol, at ddibenion gweithrediadau profi pryniadau.

Mae gorfodi'r darpariaethau ar werthu cynhyrchion cyrydol yn debygol o fod drwy arferion a dulliau tebyg fel y'u cymerwyd gan yr heddlu a Safonau Masnach ar gyfer gwerthu cyllyll.

Rhagdybiaethau mewn achosion yn yr Alban am droseddau mewn perthynas â gwerthu a darparu cynhyrchion cyrydol

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn ymwneud â'r Alban yn unig. Mae'n darparu ar gyfer rhagdybiaethau tystiolaethol penodol yn yr Alban sy'n ymwneud â natur sylweddau sydd, neu a oedd, mewn cynwysyddion mewn perthynas â throeddau o dan adrannau 1, 3 neu 4 sy'n cynnwys cynnyrch cyrydol. Mae'r rhagdybiaethau'n cael effaith oni bai bod unrhyw barti yn gallu eu gwrthbrofi, a rhaid rhoi rhybudd o leiaf 7 diwrnod cyn treialu bwriad i wrthbrofi'r rhagdybiaethau. Y rhagdybiaethau yw:

- bod disgrifiad ar gynhwysydd (boed yn agored neu wedi'i selio) lle canfyddir bod gan y cynhwysydd sylwedd ynddo, yn ddisgrifiad o'r sylwedd o fewn y cynhwysydd; a
- mewn achos lle mae cynhwysydd agored lle nad oes sylwedd, neu sylwedd mewn swm sy'n annigonol i ganiatáu dadansoddi, yn cael ei adennill, ac os seliwyd y cynhwysydd ar yr adeg y cafodd ei werthu neu ei ddanfon, yna rhagdybir bod y disgrifiad ar y cynhwysydd yn disgrifio'r hyn a oedd yn y cynhwysydd ar adeg ei werthu neu ei ddanfon.

Meddu ar sylweddau cyrydol

Mae adran 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson fod â **sylwedd cyrydol – sylwedd sy'n gallu llosgi croen dynol drwy gyrydu (gweler y diffiniad isod)** – gyda nhw mewn man cyhoeddus. Mae'n nodi amddiffyniad i'r person sy'n gyfrifol am y drosedd profi bod ganddynt reswm da neu awdurdod cyfreithlon i gael y sylwedd yn gyhoeddus, gan gynnwys i'w ddefnyddio yn y gwaith.

Mae adran 6 yn mynd i'r afael â phryder ynghylch pobl sy'n cario sylweddau cyrydol ar eu person i'w defnyddio mewn ymosodiad treisgar neu weithredoedd troseddol eraill. Mae'n

rhoi'r cyfrifoldeb ar y person sy'n meddu ar y sylwedd, yn hytrach na'r heddlu neu erlyniad, i brofi bod ganddynt reswm da neu awdurdod cyfreithlon i fod â'r sylwedd mewn man cyhoeddus.

Yn flaenorol, defnyddiwyd y troseddau o dan Ddeddf Atal Troseddu 1953 i erlyn unrhyw un sy'n meddu ar asid neu sylweddau cyrydol eraill gyda'r bwriad o achosi niwed, gan y gellir ystyried bod yr unigolyn sydd â'r sylwedd cyrydol yn meddu ar arf ymosodol. Fodd bynnag, roedd angen i'r heddlu a'r erlyniad brofi bod y person dan sylw yn cario'r sylwedd cyrydol gyda'r bwriad o achosi anaf. Nid yw hyn yn wir mwyach am y drosedd yn adran 6 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019, gyda'r ymagwedd yn adlewyrchu deddfwriaeth ar gyfer meddiannu cyllyll yn gyhoeddus.

Defnyddio beichiau perswadiol a thystiolaethol

Mae'r drosedd yn rhoi baich wrthdro ar yr unigolyn os caiff ei gyhuddo o'r drosedd i brofi ffeithiau o fewn ei wybodaeth a ddylai fod yn gymharol hawdd i'w sefydlu, megis pryd a ble yr oeddent wedi prynu'r sylwedd, natur eu cyflogaeth, at ba ddiben ac os oeddent yn ei ddefnyddio fel rhan o'u gwaith.

Disgwyliwn mai'r amgylchiadau lle mae'n debygol y bydd angen i'r unigolyn sefydlu amddiffyniad yw'r rhai lle mae amheuaeth neu wybodaeth bod unigolyn neu grŵp yn cario sylwedd cyrydol y gallent ei ddefnyddio ar gyfer ymosodiad. Pe bai person neu aelod o'r grŵp yn bwriadu defnyddio'r sylwedd at ddiben cyfreithlon, byddai'r ffeithiau sy'n eu galluogi i sefydlu'r amddiffyn rheswm da o fewn eu gwybodaeth a byddent yn gallu darparu tystiolaeth ar gyfer hyn yn hawdd. Er enghraifft, pe baent yn meddu ar lanhawr draen, dylent allu egluro pam yr oedd ganddynt, am yr hyn yr oeddent yn mynd i'w ddefnyddio, a sut.

Mae [Ymateb y Llywodraeth i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol](#) yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y mater hwn.

Diffiniad

At ddibenion adran 6, diffinnir "sylwedd cyrydol" fel sylwedd sy'n gallu llosgi croen dynol drwy gyrydu. Mae'r diffiniad yn benodol i'r drosedd yn adran 6 ac mae'n canolbwyntio ar effeithiau'r sylwedd, gan ei bod yn hysbys bod cyrydwyr yn aml yn cael eu rhoi mewn cynwysyddion neu boteli i'w gwneud yn haws eu cuddio a'u defnyddio fel arf.

Mae'r diffiniad yn golygu na fyddai'r cynhyrchion glanhau cartrefi mwyaf cyffredin yn cael eu cipio gan y drosedd meddiant. Ni fyddai'n cynnwys, er enghraifft, cannydd cartref na glanhawyr neu hylifau cartref safonol fel finegr bwrdd nad ydynt yn ddigon cryf i losgi croen dynol drwy gyrydu. Fodd bynnag, byddai'n cipio glanhawyr a dadflocwyr draeniau cryf a glanhawyr brics a phatio, tynwyr paent a chyfryngau glanhau diwydiannol y gall aelodau o'r cyhoedd eu prynu at ddibenion cyfreithlon. Bydd y rhan fwyaf o'r cynhyrchion hyn hefyd yn cael eu marcio i ddangos eu bod yn cynnwys cyrydwr cryf ac y gallant losgi'r croen yn ddifrifol. Mae'r term "sylwedd cyrydol" yn cynnwys y cynhyrchion cyrydol a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf ond bwriedir iddo gwmpasu set ehangach o gynhyrchion a sylweddau.

Mae'r diffiniad o fan cyhoeddus ar gyfer y drosedd meddiant yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys unrhyw fan y mae gan y cyhoedd, ar yr adeg dan sylw, fynediad a ganiateir iddo, boed hynny wrth dalu neu fel arall.

Amddiffyniadau

Mae'n amddiffyniad i berson sy'n gyfrifol am y drosedd hon, yng Nghymru a Lloegr, brofi bod ganddynt reswm da neu awdurdod cyfreithlon i gael y sylwedd cyrydol gyda hwy mewn man

cyhoeddus. Barn y Llywodraeth yw y byddai gan aelod o'r cyhoedd a oedd wedi prynu sylwedd crydol ac a oedd yn mynd ag ef adref at y diben y'i cynlluniwyd – er enghraifft, i ddadffocio eu draen neu at ddibenion addurno/DIY – reswm da.

Ym marn y Llywodraeth, byddai gan berson reswm da dros feddu ar sylwedd crydol a ddefnyddiwyd ganddynt yn ystod eu busnes neu gyflogaeth. Er enghraifft, plymer sydd â dadffociwr draeniau, adeiladwr sydd â glanhawr brics, cyflogai i gwmni glanhau sydd â chyfryngau glanhau â chryfder diwydiannol neu gyflogai i gwmni glanhau pyllau nofio sydd â chemegau pwll nofio.

Mae [Ymateb y Llywodraeth i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol](#) yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am hyn.

O ran awdurdod cyfreithlon, o dan Ddeddf Gwenwynau 1972 mae cyfundrefn drwyddedu ar gyfer sylweddau a reoleiddir ac mae angen trwydded gan y Swyddfa Gartref ar aelodau o'r cyhoedd i fewnforio, caffael, meddu neu ddefnyddio sylwedd a reoleiddir. Ymhlith y sylweddau a reoleiddir o dan y Ddeddf mae rhai asidau crydol, er enghraifft asid nitrig sy'n uwch na 3% crynodiad ac asid sylffwrig sy'n uwch na 15%. O ganlyniad, efallai y bydd sefyllfaoedd lle mae deiliad trwydded y Swyddfa Gartref wedi prynu'r asidau hyn neu gynnwys cyrydol sy'n cynnwys un o'r sylweddau hyn ac sy'n cludo'r sylwedd neu'r cynnyrch adref.

Perthynas â Deddf Gwenwynau 1972

Rhestrir nifer o lygryddion a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf hefyd, yn yr un crynodiadau, fel rhagsylweddion ffrwydron a gwenwynau o dan reolaethau Deddf Gwenwynau 1972. Y rhain yw:

Sylweddau a reoleiddir

- Asid nitrig: 3% p/p
- Asid sylffwrig: 15% p/p

Sylweddau adroddadwy

- Asid hydroclorig: 10% p/p
- Asid hydrofflworig: 0% p/p
- Sodiwm hydrocsid: 12% p/p
- Amoniwm hydrocsid: 10% p/p

Mae Deddf Arfau Ymosodol 2019 hefyd yn diffinio asid Ffosfforig ar 70% neu'n uwch ac asid Fformig ar 10% neu'n uwch fel cynhyrchion crydol. Mae'r terfynau crynodiad yn seiliedig ar gyngor gwyddonol gan y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn ar y trothwyon lle byddai'r sylweddau hyn yn fwyaf tebygol o achosi anafiadau parhaol neu sy'n newid bywyd. Fodd bynnag, maent hefyd yn sylweddau adroddadwy o dan y Ddeddf Gwenwynau – asid Fformig ar 25% p/p a Ffosfforig ar unrhyw drothwy crynodiad.

Diwygiwyd Deddf Gwenwynau 1972 drwy Ddeddf Dadreoleiddio 2015 a chyflwynwyd Rheoliadau Rheoli Gwenwynau a Rhagsylweddion Ffrwydron 2015 i greu cyfundrefn gydlynol i reoli gwerthiant rhagsylweddion ffrwydron a gwenwynau.

Gellir defnyddio rhai cemegion wrth weithgynhyrchu ffrwydron anghyfreithlon neu i achosi niwed ac, ers 26 Mai 2015, rhaid i aelodau o'r cyhoedd sydd am gaffael neu fewnforio'r cemegion hyn fod â thrwydded rhagsylweddion ffrwydron a gwenwynau (EPP) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a dogfen adnabod ffotograffig gysylltiedig. Ers 3 Mawrth 2016, rhaid i aelodau o'r cyhoedd sydd am feddu ar neu ddefnyddio'r cemegau hyn hefyd

feddu ar drwydded EPP a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a dogfen adnabod ffotograffig gysylltiedig.

Rhaid rhoi gwybod am unrhyw drafodion amheus (busnes i ddefnyddwyr a busnes i fusnes) o sylweddau a reoleiddir a sylweddau adroddadwy.

Gwnewch eich adroddiad gan ddefnyddio'r gwasanaeth [Adrodd am weithgarwch cemegol amheus ar-lein](#).

Fodd bynnag, os na allwch adrodd fel hyn, gallwch barhau i gyflwyno adroddiad i'r pwynt cyswllt cenedlaethol ar 0800 789321.

Rhaid rhoi gwybod i'ch heddlu lleol am unrhyw ddiflaniadau neu ladradau sylweddol o sylweddau a reoleiddir a sylweddau adroddadwy gan ddefnyddio 101 (neu 999 mewn argyfwng). Dylech gynnwys cyfeiriad at y Ddeddf Gwenwynau yn eich adroddiad ac os yw'n rhagflaenydd/gwenwyn ffrwydrol a reoleiddir/adroddadwy.

Mae'r canllawiau [ar werthu neu gyflenwi rhagsylweddion ffrwydron a gwenwynau](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth i fusnesau.

Chwilio am sylweddau cyrydol: Cymru a Lloegr

Mae adran 10 o'r Ddeddf yn rhoi'r pwerau priodol i'r heddlu o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 allu ymchwilio a gorfodi'r drosedd newydd o feddiannu sylwedd cyrydol mewn man cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gall swyddog heddlu chwilio unrhyw berson neu gerbyd neu unrhyw beth sydd mewn neu ar gerbyd am sylwedd cyrydol, ac y gall atafaelu sylwedd cyrydol os caiff ei ddarganfod yn ystod y chwiliad. Rhaid i swyddog yr heddlu fod â sail neu amheuaeth resymol bod y person yn cario sylwedd cyrydol ar ei berson neu o fewn ei gerbyd cyn cynnal stopio a chwilio.

Diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â dedfrydu

Mae adran 13 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i:

- Ddeddf Atal Troseddau 1953 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i ddarparu bod collfarn yng Nghymru a Lloegr o dan adran 6 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn "gollfarn berthnasol" at ddibenion y darpariaethau dedfrydu a nodir yn adrannau 139, 139A a 139AA o Ddeddf 1988 ac yn Neddf 1953;
- adran 37(1A) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i sicrhau, pan fo person yn cael ei gollfarnu o'r drosedd meddiant adran 6 ac mae ganddo o leiaf un gollfarn berthnasol, a bod y llys wedi ei fodloni eu bod yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, y byddent yn gallu awdurdodi derbyn a chadw'r person mewn ysbyty o'r fath a bennir yn y gorchymyn neu roi'r person o dan warcheidiaeth awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol neu y cyfryw berson a gymeradwywyd gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol;
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 mewn perthynas ag adolygu dedfrydau mewn achosion lle nad oedd llys yn gosod dedfryd briodol o garchar i alluogi i gollfarn sy'n ofynnol gan adran 8(2) o'r Ddeddf hon gael ei hystyried. Mae'r adran hefyd yn diwygio'r troseddau sy'n gollfarnau perthnasol blaenorol mewn perthynas â'r troseddau o dan adrannau 139 a 139A o Ddeddf 1988 (troseddau sy'n ymwneud â gwrthrychau llafnog ac arfau ymosodol) i gynnwys collfarn o dan adran 6 am feddiannu sylwedd cyrydol yn gyhoeddus;

- adran 12 (1A) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 i atal llys rhag gwneud gorchymyn ar gyfer rhyddhad absoliwt neu amodol wrth ddedfrydu unigolyn pan fo wedi ei gollfarnu o fod â sylwedd crydol yn gyhoeddus a bod ganddynt o leiaf un gollfarn berthnasol o dan adran 6; a
- adran 144 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a gostyngiad mewn dedfrydau ar gyfer pledio'n euog, i gynnwys achosion lle mae unigolyn wedi'i gollfarnu o fod â sylwedd crydol yn gyhoeddus ac mae ganddo o leiaf un gollfarn berthnasol, ac mae dedfryd briodol o garchar yn cael ei hystyried gan y llys o dan adran 6.

NODYN ALLWEDDOL

Mae cynhyrchion crydol yn sylweddau â therfynau crynodiad penodol (neu uwch) **na** ddylid eu gwerthu na'u danfon i rai dan 18 oed. Gall cynhyrchion crydol, os cânt eu camddefnyddio, arwain at niwed difrifol ac anafiadau sy'n newid bywyd.

Mae sylweddau crydol yn sylweddau sy'n gallu llosgi croen dynol drwy gyrydu. Mae'n cynnwys sylweddau a fyddai'n cael eu hystyried yn gynhyrchion crydol ond mae hefyd yn cwmpasu set ehangach o sylweddau a chynhyrchion nad ydynt yn achosi'r un lefel o niwed ac anafiadau difrifol. Rhaid i berson **beidio** â bod â sylwedd crydol mewn man cyhoeddus heb reswm da neu awdurdod cyfreithlon.

2. GWERTHU A DANFON CYLLYLL AC ATI – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 3

Mae Rhan 3 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn cryfhau'r gyfraith ar wahardd gwerthu cyllyll a gwrthrychau llafnog eraill i rai dan 18 oed, ac mewn perthynas â gwerthiannau 'o bell'; hynny yw, lle nad yw'r gwerthwr a'r prynwr ym mhresenoldeb ei gilydd pan fydd y gwerthiant yn digwydd, megis gwerthu ar-lein, archeb bost neu werthiannau dros y ffôn.

Gwerthu gwrthrychau llafnog i bobl o dan 18 oed

Mae eisoes yn drosedd gwerthu gwrthrychau â llafn neu bwynt miniog i berson o dan 18 oed, oni bai ei fod yn gyllell â llafn plygu o 3 modfedd (7.62 cm) neu lai³. Mae adran 34 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn ymestyn yr ystod o eitemau y mae'r drosedd bresennol yn berthnasol iddynt.

Y gyfraith bresennol

Mae Adran 141A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn gwahardd gwerthu'r gwrthrychau canlynol i rai dan 18 oed:

- unrhyw gyllell, llafn cyllell neu lafn rasel (ac eithrio llafn rasel wedi'i amgáu'n barhaol mewn cetrisen neu orchudd lle mae llai na 2mm yn agored)⁴;
- unrhyw fwyell; ac
- unrhyw wrthrych arall sydd â llafn neu sydd â phigyn miniog ac sy'n cael ei gwneud neu ei haddasu i'w defnyddio i achosi anaf i'r person.

Nid yw Deddf 1988 yn darparu diffiniadau cyfreithiol o'r eitemau hyn, felly mae gan y geiriau eu hystyr arferol. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y byddai eitem a fyddai'n cael ei disgrifio'n gyffredin fel cyllell yn cael ei hystyried fel y cyfryw at ddibenion y ddeddfwriaeth. Er mai mater i'r llysoedd yn y pen draw yw penderfynu a yw eitem benodol yn dod o fewn y categorïau uchod, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i fanwerthwyr weithredu'n gyfrifol ac ystyried yn ofalus a ellid ystyried eitem fel cyllell wrth werthu i rai dan 18 oed.

Barn y Llywodraeth yw bod yr eitemau canlynol yn debygol o ddod o fewn ystyr gwaharddiad Deddf 1988 ar werthu i rai dan 18 oed:

- unrhyw gyllell gegin waeth beth fo'i maint neu ei dyluniad;
- cyllyll cytleri;
- cyllyll bara;
- cyllyll y gellir eu defnyddio at ddibenion hobiau a masnachau p'un a ydynt yn cael eu marchnata fel cyllyll, er enghraifft, cyllyll Stanley a thorwyr torri i ffwrdd;
- raseli hogi;
- offer garddio a ffermio neu unrhyw offeryn masnach arall y gellid ei ddisgrifio'n gyffredin fel cyllell;
- cyllyll cigydd, gan gynnwys cleddyfau cig;

(³) Nid yw Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Esemptiad) 1996 yn cynnwys cyllyll sy'n plygu gyda llafn sy'n plygu o 3 modfedd (7.62 cm) neu lai.

(⁴) Nid yw Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Esemptiad) 1996 yn cynnwys llafnau rasel wedi'u hamgáu'n barhaol mewn cetrisen neu amgaead lle mae llai na 2 filimetr o unrhyw lafn yn cael ei amlygu y tu hwnt i'r gwastad sy'n croestorri pwynt uchaf yr arwynebau cyn ac yn dilyn llafnau o'r fath

- cyllyll ymarferol;
- cyllyll goroesi;
- machetes; a
- chleddyfau.

Beth mae Deddf Arfau Ymosodol 2019 bellach yn ei newid

Mae adran 34 yn ymestyn y gwaharddiad ar werthu i bobl dan 18 oed i gynnwys yr arfau ymosodol hynny a waherddir gan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988⁵, sy'n cynnwys cyllyll glöyn byw a dagerau gwthio⁶. Pan basiwyd deddfwriaeth 1988, gwaharddwyd gwerthu a chyflenwi'r arfau hyn eisoes⁷ ac nid ystyriwyd bod angen gwahardd gwerthu'n benodol i rai dan 18 oed. Fodd bynnag, mae eithriadau deddfwriaethol ac amddiffyniadau sy'n ymwneud â'r arfau hyn a gyflwynwyd ers 1988 yn golygu ei bod yn bosibl y gellid gwerthu arfau ymosodol a gwmpesir gan adran 141 i berson o dan 18 oed. Mae Deddf Arfau Ymosodol 2019 bellach yn rhoi y tu hwnt i amheuaeth na ellir gwerthu arfau a gwmpesir gan adran 141 o Ddeddf 1988 i rai dan 18 oed ac na all yr un o'r eithriadau presennol, a all gynnwys defnydd ar gyfer gweithgaredd chwaraeon, ail-greu hanesyddol, neu reswm crefyddol, fod yn gymwys yn achos pobl dan 18 oed.

NODYN ALLWEDDOL

Nid yw'n drosedd gwerthu neu gyflenwi cylllell boced i rywun dan 18 oed lle mae'r gyllell â **llafn sy'n plygu sy'n 3 modfedd (7.62 cm) neu lai** o hyd⁸.

Mae Atodiad A i'r canllawiau hyn yn nodi'r rhestr lawn o arfau a waherddir gan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ac a nodir yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol (Arfau Ymosodol 1988 (SI 1998/2019) fel y'i diwygiwyd.

Cyllyll clec a chyllyll disgyrchiant

Mae Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 yn gwahardd cyflenwi cyllyll clec a chyllyll disgyrchiant ond nid oes ganddo'r eithriadau na'r amddiffyniadau a all fod yn berthnasol i'r arfau ymosodol a waherddir gan Ddeddf 1988. Mae holl werthiannau'r cyllyll hyn, waeth beth fo oedran y prynwr, yn drosedd ac yn parhau i fod yn drosedd⁹.

Amddiffyniad i werthu gwrthrychauau llafnog i bobl o dan 18 oed: Cymru a Lloegr

Mae adran 35 o'r Ddeddf yn darparu amddiffyniadau a all fod yn gymwys i'r drosedd o werthu i rai dan 18 oed, pan wnaed y gwerthiant o bell. Fel y nodir uchod, mae gwerthiannau o bell yn cynnwys gwerthiannau ar-lein, archeb bost neu werthiannau dros y ffôn. Mae'r

⁽⁵⁾ Gwybodaeth am Gyllyll ac arfau Ymosodol, *Gov.uk*, 11/12/2012 t3-4
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/186911/Knives_and_offensive_weapons_information_GDS_FAQ.pdf (25/06/2019)

⁽⁶⁾ Gweler Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988, S.I.1988/2019 (fel y'i diwygiwyd), sy'n pennu arfau ymosodol at ddibenion adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

⁽⁷⁾ Waherddir cyflenwi gan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 (fel y'i diwygiwyd).

⁽⁸⁾ Nid yw Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Esemptiad) 1996 yn cynnwys cyllyll sy'n plygu gyda llafn sy'n plygu o 3 modfedd (7.62 cm) neu lai.

⁽⁹⁾ Gweler a1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 (fel y'i diwygiwyd).

amddiffyniad yn gofyn am brawf bod y gwerthwr wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd o werthu i bobl dan 18 oed¹⁰. I ddibynnu ar yr amddiffyniad, o leiaf, rhaid i'r **holl** amodau canlynol isod gael eu diwallu:

- mae gan y gwerthwr system ar waith i ddilysu oedran y prynwr ac nad ydynt o dan 18 oed, a bod y system yn debygol o atal pryniannau gan bobl o dan 18 oed;
- mae'r pecyn pan gaiff ei anfon gan y gwerthwr wedi'i farcio'n glir ei fod yn cynnwys gwrthrych llafnog ac mai dim ond i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn y gellir ei drosglwyddo (boed y prynwr neu rywun sy'n eu cynrychioli);
- mae'r gwerthwr wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i sicrhau, pan fydd y pecyn yn cael ei ddanfon, ei fod yn cael ei drosglwyddo i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r gwerthwr yn darparu'r pecyn ei hun neu drwy drydydd parti e.e. gan staff ar bwynt casglu; a
- nid yw'r gwerthwr yn danfon y pecyn, nac yn trefnu iddo gael ei ddanfon, i locer.

Dilysu oedran

Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi system benodol ar gyfer dilysu oedran y mae'n rhaid i'r gwerthwr ei chael ar waith. Mater i werthwyr yw penderfynu a yw'r system a ddefnyddir ganddynt yn bodloni'r gofyniad ei bod '*yn debygol o atal pobl o dan 18 oed rhag prynu gwrthrychau o'r fath drwy'r dull hwnnw*'¹¹.

- *Dilysu oedran mewn siopau:*
Efallai y bydd gwerthwyr yn penderfynu mabwysiadu eu polisïau 'Meddwl 21' neu 'Meddwl 25' presennol i sicrhau bod yn rhaid i unrhyw un sy'n ymddangos yn iau na 21 neu 25 oed ddarparu modd adnabod derbynol cyn prynu; h.y. pasbort, trwydded yrru neu fath dilys arall o adnabod. Bydd y dull hwn hefyd yn golygu bod asesiad gweledol yn ddigonol ar gyfer unrhyw un sy'n amlwg dros 21 neu 25 oed.
- *Dilysu oedran o bell:*
Mae amrywiaeth o brosesau neu systemau dilysu oedran ar gael, ac roedd y Llywodraeth yn glir wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio nad oedd am gyhoeddi safonau ar gyfer systemau ar gyfer dilysu oedran yn electronig gan fod penderfyniadau ar ba systemau i'w caffael a'u defnyddio yn fater i'r gwerthwr ac iddynt benderfynu a ydynt yn bodloni gofynion y Ddeddf. Mater i'r gwerthwr yw penderfynu pa system sy'n gweithio orau ar gyfer eu model busnes ac a fydd yn caniatáu iddynt ddangos eu bod yn cymryd pob rhagofal rhesymol ac yn arfer pob diwydrwydd dyladwy.

Y llysoedd fydd y canolwr terfynol ynghylch a oes gan y gwerthwr system ddigonol ar waith, gan ystyried y ffeithiau penodol mewn achosion unigol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn na fyddai'r enghreifftiau canlynol a ddefnyddir gan werthwyr o bell **yn ddigonol** i arddangos bod gan y gwerthwr system ddigonol a bod dilysu cadarn o oedran wedi digwydd:

- dibynnu ar y person sy'n prynu'r eitem i dicio blwch yn cadarnhau eu bod dros 18 oed;
- dibynnu mewn unrhyw ffordd arall ar wybodaeth a ddarparwyd gan y prynwr (ac eithrio math dilys o adnabod) eu bod dros 18 oed heb gynnal gwiriadau ychwanegol;

(¹⁰) Gweler adran 141A(4), ac adran 141B newydd, o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (fel y'i diwygiwyd).

(¹¹) Gweler adran 141B(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (fel y'i diwygiwyd).

- defnyddio systemau talu a allai ei gwneud yn ofynnol i'r cwsmer fod dros 18 oed ond nad ydynt yn dilysu oedran wrth brynu.

Dilysu oedran mewn manau casglu

Rhaid i fannau casglu a ddefnyddir gan werthwyr gydymffurfio â'r gofyniad na ddylid gwerthu gwrthrych llafnog i berson o dan 18 oed drwy gymryd pob rhagofal rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy. Bydd angen i'r gwerthwr hefyd sicrhau bod y pecyn sy'n cynnwys y gwrthrych wedi'i farcio'n glir fel un sy'n cynnwys llafn neu wrthrych â phigyn miniog ac mai dim ond i berson dros 18 oed y dylid ei gyflenwi. Dylid ystyried a ddylid mabwysiadu a gweithredu polisïau 'Meddwl 21' neu 'Meddwl 25', os nad ydynt eisoes ar waith, i ofyn am brawf derbynol o oedran mewn amgylchiadau priodol, p'un a yw'r person sy'n casglu'r gwrthrych y prynwr ei hun neu'n casglu ar ei ran.

Labelu pecynnau

Rhaid marcio pob pecyn sy'n cynnwys gwrthrych llafnog yn glir i ddangos ei fod yn cynnwys gwrthrych llafnog ac mai dim ond i ddwylo person 18 oed neu'n hŷn y dylid ei ddanfon. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi'r math o labelu nac unrhyw un o'i nodweddion, ac felly bydd angen i werthwyr benderfynu ar y ffordd orau o gydymffurfio â'r gofyniad labelu.

Ym marn y Llywodraeth, **mae'n annhebygol** y byddai labeli electronig a ddefnyddir ar ddyfeisiau llofnodi â llaw fel y'u defnyddir yn aml gan gwmnïau dosbarthu a chlodwyr yn bodloni gofynion y Ddeddf. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r pecyn ei hun gael ei labelu'n glir. Bydd labelu clir a gweladwy yn bwysig i staff manwerthu a danfon a chlodwyr fel eu bod yn gwbl ymwybodol bod y pecyn yn cynnwys gwrthrych na ddylid ei drosglwyddo i rywun o dan 18 oed.

Diffiniad o locer

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i'r gwerthwr ddanfon, neu i drefnu i ddanfon, gwrthrych llafnog i locer oherwydd nad oes modd dilysu oedran yn y man casglu. Mae hyn yn cynnwys cynwysyddion y gellir casglu eitemau ohonynt gan brynwyr neu eu cynrychiolwyr, megis loceri a osodir mewn gorsafoedd petrol a siopau manwerthu sy'n cynnwys cod yn cael ei anfon at y prynwr i'w agor. Nid yw'r rhain yn galluogi dilysu oedran yn hawdd yn y man casglu.

Darparu cynhyrchion llafnog i eiddo preswyl

Cynhyrchion llafnog

Mae adran 38 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i werthwr ddanfon, neu drefnu i ddanfon, 'cynhyrchion llafnog' i safleoedd preswyl neu i loceri. Mae'r term "cynhyrchion llafnog" yn derm newydd a gyflwynir gan y Ddeddf ac mae'n golygu'n benodol **eitem gyda llafn sy'n gallu achosi anaf difrifol i berson sy'n golygu torri croen y person hwnnw**.

Mae cynhyrchion llafnog yn is-set o'r ystod ehangach o wrthrychau llafnog y mae adran 141A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn perthyn iddynt (h.y. unrhyw wrthrych gyda llafn neu bigyn miniog) a drafodir uchod.

Barn y Llywodraeth yw bod yr eitemau yn y rhestr isod yn **annhebygol** o gael eu hystyried yn gynhyrchion llafnog at ddibenion adran 38:

- cyllyll cytleri (ac eithrio cyllyll stêc gyda phigyn miniog);
- cyllyll ymarferol gyda llafnau torri bach;
- torwyr torri i ffwrdd;

- torwyr pítsa; a
- chyllyll caws bach.

Y nod yw lleihau mynediad i gyllyll a llafnau peryglus a'u defnydd mewn troseddau treisgar. Nid yw gwrthrychau llafnog, fel y rhai a restrir uchod, ym marn y Llywodraeth yn debygol o ddod o fewn y diffiniad o gynnyrch llafnog **ac felly gellir eu danfon o hyd i safleoedd preswyl.**

NODYN ALLWEDDOL

Gwrthrychau llafnog

Y rhain yw unrhyw gyllell, llafn cyllell, llafn rasel, bwyell, neu wrthrych arall gyda llafn neu bigyn miniog ac sy'n cael ei wneud neu ei addasu i'w ddefnyddio ar gyfer achosi anaf i berson. **Rhaid i wrthrychau llafnog beidio â chael eu gwerthu i rai dan 18 oed.**

Cynhyrchion llafnog

Mae'r rhain yn is-set o wrthrychau llafnog a **rhaid iddynt beidio â chael eu danfon i safleoedd preswyl oni diwallir amodau penodol** os cânt eu gwerthu o bell. I fod yn gynnyrch llafnog o fewn ystyr y Ddeddf, rhaid i'r eitem fod â llafn a gallu achosi anaf difrifol i berson sy'n golygu torri croen y person hwnnw. Mae hyn yn golygu na fydd cylllyll na allent achosi anaf o'r fath yn dod o fewn y diffiniad o gynnyrch llafnog a gellir eu danfon i safleoedd preswyl. Felly, mae'n annhebygol y bydd y rhan fwyaf o gyllyll cytleri, er enghraifft, yn cael eu hystyried yn gynhyrchion llafnog.

Safleoedd preswyl

Mae'r Ddeddf yn diffinio "safleoedd preswyl" fel safleoedd a ddefnyddir dim ond at ddibenion preswyl. Mae hyn yn golygu, os defnyddir eiddo at ddibenion preswyl a busnes h.y. pan fo person yn rhedeg busnes o'i gartref, ei bod yn bosibl danfon cynhyrchion llafnog i'w cyfeiriad. Mater i'r gwerthwr yw bodloni ei hun nad yw'r cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl yn unig.

Y gwerthwr

Mae'r drosedd o ddanfon, neu drefnu i ddanfon, cynhyrchion llafnog i safleoedd preswyl neu i loceri yn berthnasol i werthwyr sydd eu hunain yn danfon eitemau (h.y. drwy eu braich ddanfon) ac i werthwyr sy'n trefnu i gwmni dosbarthu eu danfon i gyfeiriad preswyl.

Mae amddiffyniadau ar gael i'r gwerthwr o dan adran 40 o'r Ddeddf, gan gynnwys pan yw'r cwmni wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i atal yr eitem rhag cael ei danfon i berson o dan 18 oed. Mae hyn yn debygol o gynnwys pan fo'r gwerthwr yn cydymffurfio â'r amodau a nodir yn adran 35 o'r Ddeddf megis cael system ddigonol o ddilysu oedran, deunydd pecynnu wedi'i labelu, a chymryd camau i sicrhau mai dim ond i ddwylo rhywun dros 18 oed y caiff y pecyn ei ddanfon.

Os nad oes trefniadau o'r fath ar waith mewn perthynas â danfon i safleoedd preswyl, bydd yn rhaid casglu'r eitem yn bersonol mewn man casglu yn hytrach na'i danfon i safle preswyl. Mater i'r man casglu wedyn fydd sicrhau bod y pecyn yn cael ei drosglwyddo i rywun dros 18 oed.

Danfon cynhyrchion llafnog i bobl o dan 18 oed - gwerthwr wedi'i leoli yn y DU

Mae adran 39 yn ei gwneud yn drosedd i gwmni dosbarthu ddanfon cynhyrchion llafnog, a **werthir gan werthwyr yn y DU**, i rai dan 18 oed mewn safleoedd preswyl. Bydd y cwmni dosbarthu yn cyflawni trosedd os nad yw'n danfon y cynnyrch llafnog i ddwylo person dros 18 oed. Mae'r drosedd hon yn berthnasol i gyrrff corfforaethol yn unig.

Mae'r atebolrwydd ond yn gysylltiedig â chwmnïau sy'n ymrwymo i drefniadau gyda gwerthwr o bell yn y DU ar gyfer danfon cynhyrchion llafnog. Os nad yw'r cwmni dosbarthu wedi ymrwymo i drefniadau o'r fath gyda gwerthwr o bell, neu os nad ydynt yn gwybod wrth fynd i mewn i'r trefniant ei fod yn cwmpasu danfon cynnyrch llafnog, nid oes unrhyw drosedd wedi'i chyflawni gan y cwmni dosbarthu.

Mae amddiffyniad ar gael i gwmnïau dosbarthu, o dan adran 40(7) o'r Ddeddf, lle maent wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i atal yr eitem rhag cael ei danfon i unigolyn dan 18 oed.

Mae'r drosedd hon yn wahanol i'r drosedd o ddanfon i safleoedd preswyl i werthwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, o dan adran 42 o'r Ddeddf, a drafodir ymhellach isod. Pan fo'r eitem yn cael ei gwerthu gan werthwr yn y DU, dim ond os yw'r ddarpariaeth o gynnyrch llafnog i safle preswyl y cyflawnir trosedd. Ar gyfer gwerthiannau y tu allan i'r DU, mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i bob safle ac nid yn unig i gynhyrchion llafnog ond i set ehangach o wrthrychau llafnog.

Amddiffyniadau i droseddau o ddarparu cynhyrchion llafnog

Mae adran 40 o'r Ddeddf yn darparu amddiffyniadau i'r troseddau o ddosbarthu, neu drefnu i ddosbarthu, cynnyrch llafnog i safle preswyl neu i locer a'r drosedd o ddosbarthu cynhyrchion llafnog i berson o dan 18 oed mewn safle preswyl.

Amddiffyniadau – trosedd o dan adran 38: y gwerthwr

Mae gan y gwerthwr amddiffyniad lle gallant ddangos eu bod wedi arfer pob rhagofal rhesymol a diwydrwydd dyladwy i atal yr eitem rhag cael ei danfon i safle preswyl neu locer. Bydd angen i'r gwerthwr fodloni'r llys eu bod wedi cymryd camau priodol i wirio mai cyfeiriad busnes oedd y cyfeiriad; er enghraifft, drwy wirio gyda Thŷ'r Cwmnïau, chwilio am fanylion ar y rhyngwyd i gadarnhau bod y derbynnydd yn unig fasnachwr, cwmni neu bartneriaeth, neu'n gofyn i'r prynwr ddarparu gwybodaeth ei fod yn rhedeg busnes o'r cyfeiriad a roddir.

Pan fo gwerthwr yn dosbarthu'r cynhyrchion eu hunain, e.e. drwy eu braich ddanfon, mae ganddynt amddiffyniad lle gallant ddangos bod gweithdrefnau mewnol ar waith a oedd yn debygol o sicrhau, wrth gael ei ddanfon, na fyddai'r cynnyrch llafnog yn cael ei drosglwyddo i berson o dan 18 oed. Mae angen iddynt hefyd brofi eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod hyn yn digwydd. Byddai p'un a oedd gan y gwerthwr weithdrefnau digonol ar waith, yn y pen draw, yn fater i'r llys, ond efallai y bydd y gwerthwr yn gallu bodloni'r gofyniad hwn drwy ddilyn mesurau mewn perthynas â system ddigonol ar gyfer dilysu oedran, deunydd pecynnu wedi'i labelu a sicrhau bod gwiriadau oedran yn cael eu cynnal yn y man dosbarthu.

Pan fo gwerthwr yn trefnu i ddanfon y cynnyrch trwy gwmni dosbarthu, mae gan y gwerthwr amddiffyniad lle gallant ddangos bod ganddynt drefniadau ar waith gyda'r cwmni dosbarthu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael trefniadau ar waith i sicrhau na fyddai'r cynnyrch llafnog yn cael ei drosglwyddo i berson o dan 18 oed. Mae angen i'r gwerthwr hefyd allu dangos eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod hyn yn digwydd. Unwaith eto, mater i'r llysoedd yw a yw hyn yn cael ei fodloni, ond efallai y

bydd gwerthwyr am ystyried trefniadau cytundebol gyda'r cwmni dosbarthu sy'n gofyn am ddilysu oedran yn y man dosbarthu a sicrhau eu bod yn monitro a yw hyn yn effeithiol o ran atal eitemau rhag cyrraedd pobl dan 18 oed.

Mae hefyd yn amddiffyniad:

- os cafodd y cynnyrch llafnog ei ddylunio, ei weithgynhyrchu neu ei addasu ar gyfer y prynwr yn unol â manylebau'r prynwr. Gall enghreifftiau gynnwys cylllyll pwrpasol a wneir hyd at bwysau, hyd neu siâp penodol; ac
- os oedd y gwerthwr yn credu'n rhesymol bod y cynnyrch llafnog at ddiben chwaraeon neu ar gyfer ail-greu hanesyddol. Gall enghreifftiau gynnwys ffoeliau cleddyfa neu atgynhyrchiadau cleddyfau canoloesol.

Nid yw'r amddiffyniadau ychwanegol hyn yn berthnasol i drosedd cwmni dosbarthu sy'n dosbarthu cynhyrchion i berson o dan 18 oed. Rhaid eu trosglwyddo o hyd i berson dros 18 oed yn y man dosbarthu.

Amddiffyniadau – trosedd o dan adran 39: y cwmni dosbarthu

Mae amddiffyniad ar gael i gwmnïau dosbarthu, o dan adran 40(7) o'r Ddeddf, lle mae'r cwmni wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i atal yr eitem rhag cael ei danfon i berson o dan 18 oed.

Dilysu oedran

Mater i'r gwerthwr a'r cwmni dosbarthu yw penderfynu sut y byddant yn sicrhau nad yw pecynnau sy'n cynnwys cynhyrchion llafnog (yn achos gwerthwyr yn y DU) yn cael eu danfon i berson o dan 18 oed. Rhaid marcio pob pecyn sy'n cynnwys cynnyrch llafnog yn glir i ddangos ei fod yn cynnwys cynnyrch â chyfyngiad oedran ac mai dim ond i ddwylo person 18 oed neu'n hŷn y dylid ei ddanfon.

Efallai y bydd angen i gwmnïau dosbarthu wneud unrhyw un sy'n danfon y cynnyrch ar ran y cwmni yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a phwysigrwydd gwiriadau oedran. Byddant am sicrhau bod ganddynt systemau mewnol ar waith sy'n cadarnhau nad yw'r pecyn wedi'i ddanfon i ddwylo person o dan 18 oed er mwyn sicrhau eu hunain bod eu systemau'n gadarn, yn ogystal â rhoi sicrwydd i werthwyr a'r llysoedd, os oes angen.

Danfon gwrthrychau llafnog i bobl o dan 18 oed - gwerthwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU

Mae adran 42 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i gwmni dosbarthu, sydd wedi ymrwymo i drefniant gyda **gwerthwr sydd wedi'i leoli y tu allan i'r DU**, i ddanfon gwrthrych llafnog i berson o dan 18 oed.

Mae'r atebolrwydd troseddol yn gysylltiedig â chwmnïau dosbarthu sy'n ymrwymo i drefniadau gyda gwerthwr nad yw wedi'i leoli yn y DU ar gyfer danfon gwrthrychau llafnog. Os nad yw'r cwmni dosbarthu wedi ymrwymo i drefniadau o'r fath, neu os nad ydynt yn gwybod wrth fynd i mewn i'r trefniant ei fod yn cwmpasu danfon gwrthrych llafnog, nid yw unrhyw drosedd wedi'i chyflawni. Mae hwn yn atebolrwydd troseddol corfforaethol, nid un ag atebolrwydd unigol. Mae amddiffyniad ar gael i gwmnïau dosbarthu lle gallant brofi eu bod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd.

Mae'r drosedd hon i raddau helaeth yn adlewyrchu'r drosedd ar gwmnïau dosbarthu yn adran 39 o'r Ddeddf ond, yn yr achos hwn, mae'n gymwys i wrthrychau llafnog ac i ddanfoniadau i safleoedd preswyl a busnes. Fel y nodwyd eisoes, mae gwrthrych llafnog yn

gyllell neu'n llafn cyllell neu lafn rasel, bwyell neu wrthrych arall gyda llafn neu bigyn miniog wedi'i wneud neu ei addasu i'w ddefnyddio i achosi anaf i'r person¹². Mae'r drosedd yn adran 42 yn cynnwys gwrthrychau llafnog (yn hytrach na chynhyrchion llafnog yn unig) oherwydd efallai na fydd gwerthwyr sydd wedi'u lleoli dramor yn gallu penderfynu wrth werthu gwrthrych llafnog a yw'r cyfeiriad danfon ar gyfer cyfeiriad preswyl neu fusnes.

Dilysu oedran wrth ddosbarthu

Mater i'r gwerthwr a'r cwmni dosbarthu yw penderfynu sut y byddant yn sicrhau nad yw pecynnau sy'n cynnwys gwrthrychau llafnog (yn achos gwerthwyr y tu allan i'r DU) yn cael eu danfon i berson o dan 18 oed. Er mwyn cynorthwyo cwmnïau dosbarthu, dylai pob pecyn sy'n cynnwys gwrthrych llafnog gael ei farcio'n glir i ddangos ei fod yn cynnwys cynnyrch â chyfyngiad oedran, ac mai dim ond i ddwylo person 18 oed neu'n hŷn y dylid ei ddanfon.

Efallai y bydd angen i gwmnïau dosbarthu wneud unrhyw un sy'n darparu'r cynnyrch ar ran y cwmni yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a phwysigrwydd dilysu oedran. Byddant am sicrhau bod ganddynt systemau mewnol ar waith sy'n cadarnhau nad yw'r pecyn wedi'i ddanfon i ddwylo person o dan 18 oed er mwyn sicrhau bod eu systemau'n gadarn, yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r llysoedd os oes angen.

Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar y ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion sy'n ymwneud â chyllyll ac arfau ymosodol cyn Deddf Arfau Ymosodol 2019:

⁽¹²⁾ Mae gwrthrych llafnog yn wrthrych y mae adran 141A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn gymwys iddo.

3. MEDDU AR ARFAU YMOSODOL PENODOL ETC – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 4

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn cryfhau deddfwriaeth mewn perthynas â meddu ar wrthrychau llafnog a rhai arfau peryglus ac ymosodol. Mae'n ymestyn y troseddau meddiant presennol mewn man cyhoeddus ac ar safle ysgol i gynnwys safleoedd addysg bellach.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd meddiannu arfau peryglus ac ymosodol yn breifat y mae Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn gymwys iddynt. Cyn y newidiadau a wnaed gan y Ddeddf, lle mae'r heddlu'n dod o hyd i gyllell sombi, cyllell glec neu gyllell glöyn byw, er enghraifft, yng nghartref rhywun, dim ond os ystyrir ei fod yn dystiolaeth mewn ymchwiliad troseddol y gallant gymryd camau a chael gwared ar y gyllell dan sylw. Bydd Deddf Arfau Ymosodol 2019 yn caniatáu i'r heddlu gael gwared ar arfau o'r fath a ddelir yn breifat.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diwygio'r diffiniad o gyllell glec i'w diweddarau i sicrhau bod dyluniadau modern hefyd yn cael eu gwahardd.

Yn olaf, mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn ehangu'r rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig i gynnwys cyllyll seicl.

Ni all y mesurau yn Rhan 4 sy'n gwahardd meddiannu arfau ymosodol ddod i rym nes bod cyfnod ar gyfer ildio'r eitemau hyn wedi digwydd. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer talu iawndal i'r rhai a oedd yn berchen yn gyfreithlon ar yr arfau ymosodol a gwmpesir gan ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf ar neu yn union cyn 20 Mehefin 2018 pan gyflwynwyd y Bil Arfau Ymosodol cyntaf yn y Senedd, ac sy'n ildio'r rhain yn unol â threfniadau sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (Iawndal) 2020. Yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd i'r Rheoliadau, dechreuodd y cynllun ildio ac iawndal gofynnol ar 10 Rhagfyr 2020 a daeth i ben ar 9 Mawrth 2021.

Diwygiadau i'r diffiniad o "gyllell glec"

Mae gwerthu, mewnfario a chyflenwi cyllyll clec a chyllyll disgyrchiant wedi'u gwahardd ers 1959¹³. Mae adran 43 o'r Ddeddf yn diwygio'r diffiniad o "gyllell glec" yn Deddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959¹⁴. Mae'r diffiniad diwygiedig bellach yn cynnwys unrhyw gyllell sy'n agor yn awtomatig o safle caeedig, neu safle a agorwyd yn rhannol, i safle sydd wedi'i agor yn llawn drwy unrhyw bwysau â llaw sy'n cael eu gweithredu i fotwm, sbring neu ddyfais arall sydd wedi'i chynnwys naill ai o fewn y gyllell neu sydd ynghlwm wrth y gyllell.

Roedd y diffiniad blaenorol o "gyllell glec" yn cyfeirio at y ffaith bod y mecanwaith sy'n ysgogi'r llafn yn, neu'n gysylltiedig â, dolen y gyllell. Nid oedd hyn yn cynnwys dyluniadau mwy diweddar o gyllyll sydd bellach ar gael sy'n dynwared y cyflymder a'r ffordd y gellir agor cyllell glec drwy fecanwaith nad yw yn y ddolen ei hun.

Dylid nodi nad yw cyllyll sy'n agor â llaw, gan gynnwys y rhai y gellir eu hagor gyda styd bawd, **yn syrthio** o dan y diffiniad diwygiedig o gyllell glec. Yn yr un modd, nid yw'r cyllyll hynny sydd â mecanwaith sy'n agor y llafn ychydig, ond nid yn gyfan gwbl, a dim ond gyda llaw y gellir eu hagor yn llawn hefyd o fewn y diffiniad diwygiedig. Mae hyn yn golygu bod mathau o gyllyll y gellir eu gwerthu o hyd sy'n caniatáu i'r gyllell gael ei hagor gydag un llaw megis, er enghraifft, lle mae person yn dringo craig ac sydd angen cefnogi ei bwysau gydag un llaw ac agor y gyllell gyda'i llaw arall.

⁽¹³⁾ Gweler adran 1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959.

⁽¹⁴⁾ Gweler adran 1(a) o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959.

Gwahardd meddiannu rhai cyllyll peryglus

Mae adran 44 o'r Ddeddf yn gwahardd **meddu yn gyhoeddus ac yn breifat**, ar gyllell glec neu ddisgyrchiant fel y'i disgrifir yn adran 1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 (fel y'i diwygiwyd gan adran 43 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019).

Darperir amddiffyniadau ar gyfer amgueddfeydd ac orielau a phersonau sy'n gweithredu ar ran amgueddfa neu oriel er mwyn iddynt ddal eitemau o bwysigrwydd hanesyddol fel rhan o'u casgliadau at ddibenion diwylliannol, artistig neu addysgol. Mae amddiffyniad hefyd i'r rhai sydd yn meddu ar arfau peryglus a all brofi bod ganddynt yr arf yn eu meddiant er mwyn sicrhau ei fod ar gael i amgueddfa neu oriel – mae'r amddiffyniad hwn yn berthnasol i feddu a mewnfario¹⁵.

Gwahardd meddu ar arfau ymosodol ar safle addysg bellach

Mae adran 45 o'r Ddeddf yn ymestyn y drosedd bresennol o dan adran 139A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 sy'n gwahardd meddu ar wrthrych gyda llafn neu sydd â phigyn miniog neu arf ymosodol ar safle ysgol i **gynnwys safleoedd addysg bellach hefyd**. Arf ymosodol yw unrhyw wrthrych a wneir neu a addasir i'w defnyddio i achosi anaf i'r person neu a fwriedir ar gyfer defnydd o'r fath¹⁶.

Mae'r newid hwn wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth mewn perthynas â meddu ar wrthrychau llafnog yn cadw i fyny â'r newidiadau i'r amgylchedd addysg. Mae adran 45 yn rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar yr heddlu pan fo pryderon bod unigolyn yn cario arf ymosodol ar safle addysg bellach.

Mae'r amddiffyniadau a ddarperir yn adran 139A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 hefyd yn gymwys i feddu ar arfau ymosodol ar safleoedd addysg bellach; sef:

- rheswm da neu awdurdod cyfreithlon;
- i'w defnyddio yn y gwaith;
- at ddibenion addysgol;
- am resymau crefyddol; neu
- fel rhan o unrhyw wisg genedlaethol.

Pan fydd amddiffyniad posibl o'r fath ar gael, mater i'r sefydliad addysg bellach fydd penderfynu ar y polisi ynghylch a ddylid caniatáu eitemau o'r fath ar eu safle.

Mae adran 45 hefyd yn rhoi pŵer mynediad i'r heddlu chwilio am arfau ymosodol ar safleoedd addysg bellach drwy ddiwygio adran 139B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988. Mae hyn yn cynnwys pŵer i chwilio'r safle ac unrhyw berson yn y safle hwnnw y mae gan swyddog yr heddlu sail resymol dros amau bod gan unigolyn yn anghyfreithlon wrthrych gyda llafn neu bigyn, neu arf ymosodol.

(¹⁵) Gwaherddir mewnfario cyllyll clec neu ddisgyrchiant o dan adran 1(2) o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959, ac mae'n drosedd o dan adran 50(2) a (3) o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979.

(¹⁶) Gweler adran 1 o Ddeddf Atal Troseddu 1953.

Gwaharddiad ar feddu ar arfau ymosodol

Mae adran 46 o'r Ddeddf yn diwygio adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i'w gwneud yn drosedd i feddu **yn breifat** ar unrhyw arf a restrir yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988¹⁷. Fe wnaeth Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 ei gwneud yn drosedd i weithgynhyrchu, gwerthu, llogi, cynnig gwerthu neu logi, meddu ar at ddibenion gwerthu neu logi, mewnfario, benthyg neu roi arfau y mae adran 141 o Ddeddf 1988 yn gymwys iddynt, ac mae'r gwelliant a gyflwynwyd drwy adran 46 bellach yn gwneud meddiant syml o'r arfau hyn yn anghyfreithlon. Mae Atodiad A i'r canllawiau hyn yn rhestru'r arfau sy'n ddarostyngedig i'r gwaharddiad hwn, sy'n cynnwys dyrnau haearn, crafangau llaw, cyllyll cudd a llechwraidd, a chyllyll sombi.

Yng Nghymru a Lloegr, ac mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon, mae lle preifat yn lle heblaw:

- man cyhoeddus
- safle ysgol
- safleoedd addysg bellach, neu
- carchar.

Mae meddiant yn y lleoedd a restrir uchod eisoes wedi'i wahardd o dan ddarpariaethau deddfwriaethol eraill.

Mae'r amddiffyniadau sydd eisoes yn bodoli o dan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 hefyd yn gymwys i'w meddiant syml. Mae hyn yn cynnwys bod yr arf dan sylw:

- o bwysigrwydd hanesyddol;
- i'w ddefnyddio ar gyfer ail-greu hanesyddol;
- i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau chwaraeon;
- i'w ddefnyddio mewn ffilm a theatr;
- yn cael ei feddu ar ran amgueddfa neu oriel, neu wedi'i fenthylg neu ei hurio gan amgueddfa neu oriel at ddibenion diwylliannol, artistig neu addysgol; neu
- yn cael ei feddu am resymau crefyddol.

Mae arfau hynafol, dros 100 mlwydd oed, wedi'u heithrio o adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988¹⁸. Mae'r eithriad hwn bellach yn berthnasol i'r drosedd o feddu ar arfau hynafol o'r fath.

Mae esemptiad hefyd ar gyfer cleddyfau gyda llafnau crwm o 50cm neu fwy a wnaed cyn 1954 neu'r rhai a wnaed ar unrhyw adeg gan ddulliau traddodiadol â llaw.

(¹⁷) Gwybodaeth am Gyllyll ac arfau ymosodol, *Gov.uk*, 11/12/2012 t3-4
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/186911/Knives_and_offensive_weapons_information_GDS_FAQ.pdf (25/06/2019)

(¹⁸) Gweler paragraffau 1 a 2 o Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988.

Gwaharddiad ar feddu ar arfau ymosodol: cylyll seiclun neu droellog

Mae adran 47 o'r Ddeddf yn diwygio Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 (SI 1988/2019) i gynnwys arfau a elwir yn gyllyll seiclun neu gyllyll troellog. Mae cylllell seiclun neu droellog yn arf sy'n cynnwys dolen â llafn gyda dau neu fwy o ymylon torri, y mae pob un ohonynt yn ffurfio helics a phigyn miniog ar ddiwedd y llafn. Effaith cynnwys yr arfau hyn yw, fel arfau helix, fod gwerthu, mewnfario, cyflenwi a meddu ar y cylyll hyn bellach wedi'i wahardd.

Kirpanau

Mae rhai kirpanau yn dod o dan y diffiniad o arf ymosodol y mae adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn gymwys iddo¹⁹ (er nad yw kirpan sy'n llai na 50cm yn cael ei gipio gan y ddeddfwriaeth). Mae eisoes yn amddiffyniad o dan adran 139 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i feddu ar y fath gleddyf yn gyhoeddus am resymau crefyddol i sicrhau y gall person o ffydd Sicaidd feddu ar kirpan. Yr oedd yn yr un modd yn amddiffyniad i'r drosedd o dan adran 141 o Ddeddf 1988 lle'r oedd ymddygiad o'r fath at ddibenion defnyddio mewn seremonïau crefyddol. Mae'r amddiffyniad hwn yn gymwys i feddu yn breifat, ac mae'r adran hon yn addasu'r amddiffyniad sy'n ei ymestyn o "seremonïau crefyddol" i "resymau crefyddol"²⁰.

Mae Adran 47 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 bellach yn darparu amddiffyniad newydd i'r drosedd o feddu'n breifat i Siciaid sy'n meddu ar gleddyfau o'r fath **at ddibenion eu cyflwyno i eraill mewn seremoni grefyddol neu ddigwyddiad seremonïol arall** ac i'r derbynwyr, p'un a ydynt yn Siciaid ai peidio, feddu ar gleddyfau y maent wedi'u cyflwyno iddynt. Mae hefyd yn darparu amddiffyniad ar gyfer y gweithredoedd atodol lle maent at y diben terfynol hwnnw e.e. gweithgynhyrchu a gwerthu, gweithred rhoi ac ati. Mae hyn yn sicrhau y gall y weithred o roi'r kirpan Sicaidd mewn seremoni ddigwydd yn gyfreithlon.

Ildio arfau ymosodol gwaharddedig a thaliadau mewn perthynas â hwy

Mae adran 48 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i'r rhai sydd ag arfau ymosodol yn gyfreithiol, y mae Deddf Arfau Ymosodol 2019 wedi gwahardd eu meddiant, allu ildio'r arfau hynny mewn gorsafoedd heddlu dynodedig. Roedd Rheoliadau Ildio Arfau Ymosodol (lawndal) 2020 yn darparu am gyfnod o dri mis pan oedd perchnogion cyfreithiol yr arfau hyn yn gallu eu hildio i'r heddlu a hawlio iawndal. Dechreuodd y cyfnod ildio ar 10 Rhagfyr 2020 a daeth i ben ar 9 Mawrth 2021. Er ei bod yn dal yn bosibl ildio arfau o'r fath i'r heddlu, nid yw bellach yn bosibl hawlio iawndal.

(¹⁹) Gweler paragraff 1(r) o'r Atodlen i Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988.

(²⁰) Gweler paragraff 5A o'r Atodlen i Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988.

4. BYGWTH AG ARFAU YMOSODOL – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 5

Mae Rhan 5 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 yn cryfhau'r gyfraith mewn perthynas â bygwth ag arfau ymosodol. Mae'r Ddeddf yn diwygio'r troseddau presennol o fygwth gydag arf ymosodol mewn man cyhoeddus drwy newid y prawf i un lle mae trosedd wedi'i chyflawni os yw'r bygythiad yn golygu y byddai person rhesymol a oedd yn agored i'r bygythiad hwn yn credu eu bod mewn perygl o niwed corfforol uniongyrchol.

Mae'r Ddeddf yn ymestyn y drosedd o fygwth gydag arf ymosodol o ysgolion i safleoedd addysg bellach. Mae hefyd yn creu trosedd newydd o fygwth gydag arf ymosodol mewn lle preifat. Mae troseddau sy'n bodoli eisoes sy'n ymwneud ag ymddygiad bygythiol yn breifat, ond mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trosedd benodol i alluogi'r cosbau sy'n agored i'r llysoedd i fod yn unol â'r cosbau sydd ar gael pe bai ymddygiad bygythiol o'r fath yn cael ei gyflawni'n gyhoeddus. Mae Rhan 5 o'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i'r heddlu chwilio am sylweddau crydol os ydynt yn amau bod rhywun yn cael ei fygwth â sylwedd crydol mewn ysgol neu safle addysg bellach.

Trosedd bygwth gydag arf ymosodol mewn man cyhoeddus

Mae adran 50 yn diwygio'r prawf cyfreithiol ar gyfer bygwth gydag arf ymosodol mewn man cyhoeddus. Mae'n disodli gofyniad y bygythiad sy'n achosi risg uniongyrchol o niwed corfforol difrifol i'r dioddefwr, gyda phrawf newydd bod y bygythiad o'r fath **y byddai person rhesymol a oedd yn agored i'r bygythiad hwn yn meddwl eu bod mewn perygl o niwed corfforol uniongyrchol**. Mae adran 50 yn diwygio'r troseddau y darperir ar eu cyfer gan adran 1A o Ddeddf Atal Troseddu 1953 ac adran 139AA o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

Roedd y prawf cyfreithiol blaenorol yn seiliedig ar yr asesiad gwrthrychol o'r risg uniongyrchol o niwed corfforol difrifol i'r dioddefwr yn hytrach na bod yn seiliedig ar sut y byddai person rhesymol yn gweld y bygythiad. Mae'r prawf newydd yn ystyried sut y byddai person rhesymol, yn sefyllfa'r dioddefwr, yn dehongli bygythiad o'r fath, ac nid a oedd y dioddefwr mewn perygl gwrthrychol o niwed corfforol uniongyrchol. Nid yw'r prawf hwn yn seiliedig ar ofn y dioddefwr o ddioddef niwed, gan fod y prawf person rhesymol yn dileu'r elfen o oddrychedd ar ran y person sydd dan fygythiad. Yn ogystal, mae newid y prawf o 'niwed corfforol difrifol' i 'risg o niwed corfforol uniongyrchol' yn dileu'r angen i brofi bod y niwed corfforol dan fygythiad yn ddifrifol. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi diffiniad statudol o "niwed corfforol". Mae'r geiriau hyn felly'n cario eu hystyr arferol.

Bygwth ag arf ymosodol ar safle addysg bellach neu mewn man preifat

Mae adran 51 o'r Ddeddf yn diwygio adran 139AA o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 i ymestyn y drosedd o fygwth â gwrthrych llafnog neu â phigyn neu arf ymosodol ar safle ysgol i safle addysg bellach.

Mae adran 52 yn creu trosedd benodol newydd o **fygwth â sylwedd crydol, gwrthrych llafnog neu â phigyn neu arf ymosodol yn breifat**. Er bod troseddau eisoes yn ymwneud â'r weithred o fygwth rhywun ag arf ymosodol yn breifat, nid oedd y troseddau a oedd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio mewn amgylchiadau o'r fath, sef ymosodiad cyffredin, yn denu'r un cosbau ag am drosedd o fygwth yn gyhoeddus.

Mae bellach yn drosedd i berson fygwth person arall â sylwedd crydol yn anghyfreithlon ac yn fwriadol, gwrthrych llafnog neu â phigyn neu arf ymosodol mewn ffordd sy'n golygu bod **rîsg uniongyrchol o niwed corfforol difrifol i'r person hwnnw**.

Diffinnir niwed corfforol difrifol fel rhywbeth sy'n gyfystyr â niwed corfforol difrifol at ddibenion Deddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Diffinnir niwed corfforol difrifol mewn cyfraith achosion²¹ fel niwed difrifol iawn fel y'i hasesir gan reithgor, ac mae clwyf a ddiffinnir fel toriad yn nilyniant y croen yn dod o fewn paramedrau niwed corfforol difrifol.

Mae'r drosedd o fygwth mewn man preifat yn mabwysiadu prawf uwch mewn perthynas â niwed corfforol difrifol na'r drosedd o fygwth mewn man cyhoeddus, ysgol, neu safle addysg bellach, fel y'i diwygiwyd bellach o dan adrannau 50 a 51 o'r Ddeddf yn y drefn honno. Y rheswm am hyn yw bod y drosedd yn adran 52 yn ymdrin â bygythiadau yn y maes preifat, megis yng nghartref person, ac felly gall cyhuddiadau troseddol eraill fod yn fwy priodol ar gyfer bygythiadau llai difrifol. Er enghraifft, gall yr ymddygiad dan sylw yn breifat fod yn ymosodiad cyffredin o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988. Mae'r troseddau o ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, sarhaus neu ddiffriol gan fwriadu peri i berson gredu y bydd trais anghyfreithlon uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn, neu gyda'r bwriad o achosi aflonyddwch, braw neu ofid i berson, o dan adran 4 a 4A o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, hefyd ar gael. Mae'r troseddau hyn yn berthnasol i weithredoedd yn breifat ac yn gyhoeddus, ac eithrio nad oes unrhyw drosedd wedi'i chyflawni pan fo'r person sy'n bygwth a'r person sydd dan fygythiad yn yr un annedd neu annedd arall.

Yn dibynnu ar yr ymddygiad, efallai y bydd hefyd yn bosibl dwyn cyhuddiad am geisio clwyfo neu geisio gwneud niwed corfforol difrifol yn groes i adran 18 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd hefyd yn bosibl dwyn cyhuddiad am fygythiad i ladd o dan adran 16 o Ddeddf 1861 sy'n cario dedfryd uchaf o 10 mlynedd os ceir euogfarn ar ddiad.

Mae'r drosedd yn adran 52 yn gymwys mewn unrhyw fan preifat. **Ar gyfer gwrthrychau llafnog ac â phigyn miniog ac arfau ymosodol** mae hyn yn golygu unrhyw le heblaw man cyhoeddus neu safle ysgol neu addysg bellach, lle mae eisoes yn drosedd. **Ar gyfer sylweddau crydol**, mae man preifat yn golygu unrhyw le heblaw man cyhoeddus, felly byddai'n drosedd o dan adran 52 i fygwth rhywun â sylwedd crydol mewn ysgol neu safle addysgol bellach er enghraifft.

Chwilio am sylwedd crydol ar safle ysgol neu addysg bellach

Mae adran 53 yn rhoi pwerau i'r heddlu fynd i mewn i chwilio am sylwedd crydol ar safle ysgol ac addysg bellach i gefnogi'r drosedd newydd a ddarperir gan adran 52. Bydd y pwerau hyn yn galluogi'r heddlu i fynd i mewn i ysgol neu safle addysg bellach a'i chwilio, ac unrhyw berson ynddynt, i atal trosedd o fygwth â sylwedd crydol. Y rheswm dros ymestyn pwerau'r heddlu fel hyn yw bod ganddynt eisoes y pŵer mewn perthynas ag arfau ymosodol eraill. Dim ond pan fydd gan swyddog heddlu sail resymol dros amau y bydd trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni neu ei bod wedi'i chyflawni y byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio. Gall adroddiad gan athro, rhiant neu fyfyrwr fod yn sail resymol i'r heddlu arfer y pŵer hwn.

²¹ DPP v Smith 1961

5. GORFODI – DEDDF ARFAU YMOSODOL 2019, RHAN 7

Nid yw'r Rhan hon yn rhan o'r canllawiau statudol ond mae wedi'i chynnwys ar gyfer gwybodaeth gefndirol.

Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau ar Safonau Masnach i orfodi deddfwriaeth berthnasol ar werthu cyllyll, arfau ymosodol a chynhyrchion cyrydol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i ymestyn cynllun yr Awdurdod Sylfaenol ar gyfer Awdurdodau Safonau Masnach i gynnwys gwerthu cyllyll (gwrthrychau llafnog ac ati), cynhyrchion cyrydol ac arfau ymosodol eraill.

Gorfodi troseddau sy'n ymwneud â gwerthu arfau ymosodol

Mae adran 64 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Safonau Masnach lleol orfodi o fewn eu hardal y troseddau newydd o dan Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 a throseddau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gwerthu, dosbarthu ac ati cyllyll, cynhyrchion cyrydu ac arfau ymosodol eraill. Y darpariaethau perthnasol yw:

- Adran 1(1) o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 (cosbau am droseddau mewn cysylltiad ag arfau peryglus);
- Adran 1 o Ddeddf Croesfwâu 1987 (gwerthu ac ati croesfwâu i bersonau o dan 18 oed);
- Adran 141(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (arfau ymosodol);
- Adran 141A o'r Ddeddf honno (gwerthu ac ati gwrthrychau llafnog i bersonau o dan 18 oed);
- Adran 1 o Ddeddf Cyllyll 1997 (marchnata cyllyll yn anghyfreithlon);
- Adran 2 o'r Ddeddf honno (cyhoeddi deunydd marchnata anghyfreithlon sy'n ymwneud â chyllyll);
- Adran 1 o Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 (gwerthu cynhyrchion cyrydol i bersonau o dan 18 oed);
- Adran 3 o'r Ddeddf honno (darparu cynhyrchion cyrydol i safleoedd preswyl ac ati);
- Adran 4 o'r Ddeddf honno (darparu cynhyrchion cyrydol i bersonau o dan 18 oed);
- Adran 38 o'r Ddeddf honno (darparu cynhyrchion llafnog i safleoedd preswyl ac ati);
- Adran 39 o'r Ddeddf honno (darparu cynhyrchion llafnog i bersonau o dan 18 oed); ac
- Adran 42 o'r Ddeddf honno (darparu gwrthrychau llafnog i bersonau o dan 18 oed).

Rhestrir y pwerau ymchwilio sydd ar gael i Safonau Masnach at ddibenion gorfodi darpariaeth yn Atodlen 5 i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015²².

Deddf Cymhwyso Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008

Mae adran 65 yn cymhwyso Rhannau 1 a 2 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008 i orfodi darpariaethau sy'n ymwneud â gwerthu a dosbarthu cyllyll, cynhyrchion cyrydol ac arfau ymosodol, sy'n cynnwys ymestyn cynllun yr Awdurdodau Sylfaenol i'r darpariaethau hyn.

Crëwyd cynllun yr Awdurdod Sylfaenol mewn ymateb i argymhellion yn Adroddiad Hampton (2005) a nododd anghysondebau eang o ran dehongli rheoleiddiol rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Darperir y sail statudol ar gyfer y cynllun gan y Ddeddf Gorfodi a

²² <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/15/schedule/5/enacted>

Sanctiynau 2008 (fel y'i diwygiwyd) ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Cyflwynwyd cynllun yr Awdurdodau Sylfaenol ym mis Ebrill 2009. Roedd Deddf Menter 2016 yn cynnwys mesurau i ddiwygio Deddf 2008 i alluogi llawer mwy o fusnesau bach a mentrau cyn cychwyn i gymryd rhan mewn Awdurdod Sylfaenol.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar greu partneriaeth statudol rhwng busnes a'i 'Awdurdod Sylfaenol' (PA). Mae'r cynllun wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol ac mae wedi cael derbyniad a chefnogaeth eang gan fusnesau, cymdeithasau masnach ac awdurdodau lleol.

Yr elfennau allweddol yw:

- Mae dau fath o bartneriaeth PA. Gall busnes ffurfio ei bartneriaeth uniongyrchol ei hun gydag awdurdod lleol a ddewiswyd. Yna mae'n derbyn cyngor PA wedi'i deilwra i'w anghenion penodol. Fel arall, gall busnes sy'n perthyn i gymdeithas fasnach sydd â PA (neu fath arall o 'grŵp a reoleiddir') elwa o bartneriaeth gydgyssylltiedig. Yn yr achos hwn, mae cyngor y PA yn dal i gael ei ddarparu gan y PA ond mae'n cael ei rannu drwy'r gymdeithas fasnach (y 'cydgyssylltydd') ac wedi'i deilwra i anghenion cyffredinol ei haelodau. Yn achos gwerthiannau cyllyll sy'n gyfyngedig i oedran, rhennir cyfrifoldebau gorfodi cyllyll rhwng awdurdodau lleol a heddluoedd. Mae heddluoedd yn gweithredu y tu allan i gwmpas PA ac nid oes bwriad i newid hyn.
- Mae gan y PA rôl i'w chwarae o ran arwain y gwaith o reoleiddio'r busnes ar ran rheoleiddwyr awdurdodau lleol, gan gynnwys drwy gydlynw gwybodaeth ac ymatebion i faterion penodol sy'n codi.
- Gall y PA rannu gwybodaeth am gydymffurfedd ag awdurdodau gorfodi a gall, gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol, gyhoeddi cynllun arolygu lle bydd hyn o fudd wrth arwain a chydlynw gweithgareddau awdurdodau gorfodi. O ganlyniad, mae amddiffyniadau'n cael eu gwella, er nad yw awdurdodau gorfodi wedi'u cyfyngu rhag ymateb i gŵynion ac ymchwilio iddynt.
- Gall y PA roi cyngor a chanllawiau ar gydymffurfio i'r busnes (a elwir yn Gyngor PA) mewn meysydd rheoleiddio a gwmpesir gan y bartneriaeth, y gall y busnes ddibynnu arnynt.
- Pan fydd y busnes yn wynebu camau gorfodi posibl gan awdurdod gorfodi, bydd y PA yn asesu a yw'r camau arfaethedig yn anghyson ag unrhyw Gyngor PA a roddir. Os yw'r weithred yn anghyson, gall y PA gyfarwyddo'r awdurdod gorfodi i beidio â gweithredu.
- Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y grym i wneud penderfyniad yn achos anghytundeb ynghylch a yw'r camau gorfodi arfaethedig yn anghyson â Chyngor PA a roddwyd gan y PA, ac a oedd y cyngor hwnnw'n gywir ac wedi'i roi'n briodol.
- Nid yw Cyngor PA yn effeithio ar y cyfrifoldeb bod rhaid i fusnes gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, ond mae'n ei gefnogi i gyflawni ei rwymedigaethau drwy:
 - ei helpu i ddeall yr hyn y mae angen ei wneud i gyflawni neu gynnal cydymffurfedd;
 - nodi ffordd o gyflawni a chynnal cydymffurfedd; neu
 - rhoi sicrwydd bod y dull cydymffurfio a ddewisir gan y busnes yn dderbyniol.

Gall y [Canllawiau Statudol Awdurdodau Sylfaenol](#) a'r [Canllaw i Awdurdodau Lleol](#) ddarparu darllen pellach defnyddiol.

Atodiad A – rhestr o arfau ymosodol

Arfau Penodedig

Mae adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn darparu ei bod yn drosedd i unrhyw berson weithgynhyrchu, gwerthu neu logi, cynnig gwerthu neu logi, amlygu neu gael yn ei feddiant at ddibenion gwerthu neu logi neu fenthyca neu roi arfau penodedig penodol i unrhyw berson arall.

Mae Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol (Arfau Ymosodol) 1988 (O.S 1988/2019) (fel y'i diwygiwyd) yn darparu bod y canlynol yn arfau penodedig at ddibenion adran 141:

- a) dwrn haearn, hynny yw, band o fetel neu ddeunydd caled arall a wisgir ar un neu fwy o fysedd, ac a gynlluniwyd i achosi anaf, ac unrhyw arf sy'n cynnwys dwrn haearn;
- b) ffon-gleddyf, hynny yw, ffon gerdded wag neu gansen sy'n cynnwys llafn y gellir ei ddefnyddio fel cleddyf;
- c) yr arf a elwir weithiau'n 'grafanc-law', sef band o fetel neu ddeunydd caled arall y mae nifer o bigau miniog yn ymwthio allan ohono, ac a wisgir o amgylch y llaw;
- d) yr arf a elwir weithiau'n 'gyllell bwcwl gwregys', sef bwcwl, sy'n ymgorffori neu'n cuddio cyllell;
- e) yr arf a elwir weithiau'n 'dagr gwthio', sef cyllell, y mae ei dolen yn ffitio o fewn dwrn caead ac mae ei llafn yn ymwthio allan ohono rhwng dau fys;
- f) yr arf a elwir weithiau'n 'kubotan gwag', sef cynhwysydd silindraidd sy'n cynnwys nifer o bigau miniog;
- g) yr arf a elwir weithiau'n 'grafanc-droed', sef bar o fetel neu ddeunydd caled arall y mae nifer o bigau miniog yn ymwthio allan ohono, ac a wisgir wedi'i strapio i'r droed;
- h) yr arf a elwir weithiau'n 'shuriken', 'shake' neu 'seren angau', sef plât caled, nad yw'n hyblyg â thri neu fwy o bigynau miniog sy'n ymledu ac wedi'u cynllunio i'w taflu;
- i) yr arf a elwir weithiau'n 'balisong' neu 'gyllell glöyn byw', sef llafn wedi'i amgáu gan ei ddolen, sydd wedi'i gynllunio i rannu i lawr y canol, heb weithredu sbring neu ddulliau mecanyddol eraill, i ddatgelu'r llafn;
- j) yr arf a elwir weithiau'n 'bastwn telesgopig', sef pastwn sy'n ymestyn yn awtomatig drwy bwysau llaw a gymhwysir at fotwm, sbring neu ddyfais arall yn ei ddolen neu sydd ynghlwm wrtho;
- k) yr arf a elwir weithiau'n 'bibell chwythu' neu 'gwn chwythu', sef tiwb gwag y mae pelenni caled neu ddartiau yn cael eu saethu allan ohono drwy ddefnyddio anadl;
- l) yr arf a elwir weithiau'n 'kusari gama', sef darn o raff, cordyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar un pen i gryman;
- m) yr arf a elwir weithiau'n 'kyoketsu shoge', sef darn o raff, cordyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar un pen i gyllell fachog;

- n) yr arf a elwir weithiau'n 'manrikigusari' neu 'kusari', sef darn o raff, cordyn, gwifren neu gadwyn wedi'i glymu ar bob pen i bwysau caled neu afael llaw;
- o) cylllell gudd, hynny yw unrhyw gyllell sydd â llafn wedi'i guddio neu bigyn miniog wedi'i guddio ac sydd wedi'i gynllunio i ymddangos yn wrthrych bob dydd o fath a gludir yn gyffredin ar y person neu mewn bag llaw, bag gwaith, neu wrthrychau llaw arall (fel crib, brwsh, offeryn ysgrifennu, taniwr sigarêts, allwedd, lipstic neu ffôn);
- p) cylllell lechwraidd, sef cylllell neu big, sydd â llafn, neu bigyn miniog, wedi'i wneud o ddeunydd nad yw'n hawdd ei ganfod gan gyfarpar a ddefnyddir i ganfod metel ac nad yw wedi'i gynllunio at ddefnydd domestig neu i'w ddefnyddio wrth brosesu, paratoi neu fwyta bwyd neu fel tegan;
- q) pastwn syth, â dolen ochrol neu sy'n cloi â ffrithiant (a elwir weithiau'n faton);
- r) cleddyf gyda llafn crwm o 50 centimetr neu drosodd o hyd; ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, hyd y llafn fydd y pellter llinell syth o frig y ddolen i bigyn y llafn';
- s) yr arf a elwir weithiau'n "gyllell sombi", "cylllell lladd sombi" neu "cylllell lladdwr sombi", sef llafn gyda — (i) min torri; (ii) min danheddog; a (iii) delweddau neu eiriau (boed ar y llafn neu'r ddolen) sy'n awgrymu ei fod i'w ddefnyddio at ddibenion trais;
- t) yr arf a elwir weithiau'n "gyllell seiclôn" neu "gyllell droellog", sef arf gyda — (i) dolen; (ii) llafn gyda dau neu fwy o finau torri, y mae pob un ohonynt yn ffurfio helics; a (iii) pigyn miniog ar ddiwedd y llafn.